Adroddiad ar arolygiad gyda rhybudd o

# Uned ieuenctid yng

# Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

**11–22 Ionawr 2016**

Gwnaed yr arolygiad hwn gyda chymorth gan gydweithwyr yn y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac mewn partneriaeth â'r cyrff canlynol:

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd yn rhaid i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod, neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr ar: http://www.justice.gov.uk/about/hmi-prisons

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi / Her Majesty's Inspectorate of Prisons
Victory House
6th floor
30–34 Kingsway
London
WC2B 6EX
England

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 7 |
| Tudalen ffeithiau | 9 |
| Ynglŷn â'radroddiad a'r arolygiad hwn | 11 |
| Crynodeb | 13 |
| Adran 1. Diogelwch | 19 |
| Adran 2. Parch | 31 |
| Adran 3. Gweithgaredd pwrpasol | 43 |
| Adran 4. Ailsefydlu | 49 |
| Adran 5. Argymhellion a phwyntiau cynnal a chadw | 57 |
| Atodiadau | 61 |
| Atodiad I: Tîm arolygu | 61 |
| Atodiad II: Cynnydd ar argymhellion o'r adroddiad diwethaf | 63 |
| Atodiad III: Proffil poblogaeth y sefydliad | 67 |
| Atodiad IV: Crynodeb o holiaduron a chyfweliadau plant a phobl ifanc | 71 |

**Geirfa**

Rydym yn ymdrechu i wneud ein hadroddiadau mor eglur â phosibl, ond os byddwch yn dod ar draws termau anghyfarwydd, gweler yr Eirfa yn ein 'Guide for writing inspection reports' ar ein gwefan ar: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

# Cyflwyniad

Mae uned ieuenctid y Parc yn rhan amlwg, ac yn gyffredinol, wedi'i gwahanu'n dda o garchar llawer mwy ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru. Agorwyd yr uned pobl ifanc yn 2002 fel cyfleuster 28 ystafell, a thros y blynyddoedd mae wedi ehangu i'r pwynt lle mae bellach yn dal 64 o bobl ifanc, er mai dim ond 38 oedd yn preswylio yno ar adeg yr arolygiad hwn. Mae ei dalgylch yn cwmpasu de a chanolbarth Cymru, a llawer o dde-orllewin Lloegr. Mae'r sefydliad yn cael ei redeg o dan gontract gan G4S Central Government Services.

Ar adeg yr arolygiad llawn diwethaf ym Mai 2014, ein barn ni oedd bod pobl ifanc yn cael gofal da ac yn gyffredinol, roeddent yn profi canlyniadau cadarnhaol. Dywedodd yr adroddiad arolygu fod 'y Parc yn sefydliad diogel'. Yn benodol, roedd trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn, a dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth gyrraedd ac yn ystod eu harhosiad.

Yn ystod yr arolygiad hwn roedd ein barn wedi'i chymedroli, fel bod canlyniadau yn y meysydd hollbwysig 'diogelwch' a 'pharch' wedi gostwng o 'dda' i 'weddol dda'. Roedd y rhesymau dros y newid hwn yn glir. Er bod y trefniadau derbyn, diogelu ac amddiffyn plant yn parhau i fod yn effeithiol, roedd pryderon mewn meysydd eraill. Roedd y ffaith bod 42% o'r plant wedi adrodd eu bod yn cael eu herlid gan staff yn destun pryder, yn enwedig gan fod hyn wedi dyblu'n fwy na'r 20% ar adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'n amlwg bod angen deall y canfyddiadau hyn o'r arolwg, yn enwedig gan mai dim ond 55% o fechgyn oedd yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch gan y staff. Canfyddiadau perthnasol eraill o'r arolwg oedd, tra dywedodd y mwyafrif o blant ei bod yn hawdd gwneud cwyn, dywedodd y rhan fwyaf hefyd, unwaith y cafodd y gŵyn ei gwneud, nad oedd y cwynion hynny'n cael eu trin yn deg neu mewn modd amserol.

Ni ellir diystyru canlyniadau'r arolwg fel rhai safbwyntiau goddrychol yn unig gan y plant a gedwir yn y ddalfa. O ran tystiolaeth wrthrychol, roedd y defnydd o rym, fel y cofnodwyd gan y sefydliad, wedi treblu ers yr arolygiad blaenorol. Defnyddiwyd grym fwy na 200 o weithiau yn y chwe mis cyn yr arolygiad, yn bennaf mewn ymateb i ddigwyddiadau treisgar. Dywedodd bron i chwarter o'r bechgyn eu bod wedi dioddef ymosodiad gan fechgyn eraill yn y Parc.

Cafodd rhywfaint o'r lefel hon o drais ei phriodoli gan staff ar effaith ansefydlogi o ganlyniad i ddau blentyn arbennig o anodd, a drosglwyddwyd i'r Parc yn ystod hydref 2015. Os oedd hynny wir yn wir, yna mae angen i reolwyr fod yn siŵr eu bod wedi deall sut roedd hyn yn gallu digwydd a sicrhau bod y cynlluniau angenrheidiol yn eu lle i atal hyn rhag digwydd eto.

Yng ngoleuni'r honiadau diweddar sydd wedi cael eu gwneud am driniaeth plant mewn mannau eraill yn ystâd ddiogel y bobl ifanc, mae'n hanfodol bod ein hargymhellion ynglŷn â hyfforddiant gloywi ym maes amddiffyn plant, a gwybodaeth am y polisi codi pryderon, yn cael eu gweithredu fel mater o frys. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r rhesymau pam bod plant wedi adrodd cynnydd mewn erledigaeth gan staff gael eu hymchwilio a'u deall. I grynhoi, er ein bod ar y cyfan wedi gallu parhau i farnu'n hyderus bod canlyniadau o dan elfen 'diogelwch' y prawf carchar iach yn 'weddol dda', mae gwir angen i'r tîm arweinyddiaeth yn y Parc ddeall beth sydd y tu ôl i agweddau negyddol y canfyddiadau hyn.

Roedd llawer i'w ganmol yn y Parc, ac nid oedd unrhyw amheuaeth bod tîm arweinyddiaeth y Sefydliad Troseddwyr Ifanc wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel a gweddus ar gyfer y plant yn eu gofal. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o achosion lle'r oedd gwaith da gan staff a phartneriaid wedi cael effeithiau buddiol ar brofiadau'r plant. Roedd hyn yn fwyaf amlwg mewn gweithgaredd pwrpasol lle'r oedd bechgyn, yn arbennig, yn y Parc wedi parhau i gael mynediad at lawer mwy o amser allan o'r gell na'u cymheiriaid mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd hyn yn cynnwys cyfnodau cymdeithasu ac ymarfer corff rheolaidd. Roedd hefyd yn gadarnhaol mai anaml y defnyddiwyd arwahanu er gwaethaf yr ymddygiad heriol a ddangoswyd yn ystod hydref 2015.

Ar adegau, roedd canlyniadau plant yn wael lle'r oedd yr ateb y tu allan i reolaeth y staff, enghraifft foel o hyn oedd lle daethom yn ymwybodol o blentyn a oedd wedi cael ei ryddhau i hostel gwely a brecwast anaddas, er

gwaethaf ymdrechion gorau staff y Parc i ddod o hyd i lety addas. Roedd yr anallu i sicrhau llety addas mewn da bryd cyn rhyddhau yn atal y bachgen hwnnw rhag cael unrhyw drefniadau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ei gyfer ar ôl ei ryddhau.

Er gwaethaf yr holl bethau cadarnhaol a oedd yn digwydd yn y Parc, nid oes lle i fod yn hunanfodlon, gan fod y dyfarniadau ym meysydd 'diogelwch' a 'pharch' wedi dirywio ers yr arolygiad diwethaf. Rwy'n siŵr y bydd yr arweinyddiaeth yn y Parc yn rhoi eu sylw llawn i hyn, ac yn ymdrechu i gael sefydliad sy’n perfformio’n uchel unwaith eto yn y meysydd allweddol hyn.

**Peter Clarke CVO OBE QPM**
Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

Mawrth 2016

# Tudalen ffeithiau

**Tasg y sefydliad**
Carchar hyfforddi categori B i garcharorion sy'n oedolion gwrywaidd. Uned pobl ifanc ar remand ac a gafwyd yn euog.

**Statws y carchar (cyhoeddus neu breifat, gydag enw contractwr os yw'n breifat)**
Preifat (G4S Central Government Services)

**Rhanbarth/Adran**
Cymru a'r de orllewin

**Niferoedd a gedwir yno**
38

**Llety arferol ardystiedig**
64

**Cynhwysedd gweithredol**
64

**Dyddiad yr arolygiad llawn diwethaf**
Mai 2014

**Hanes byr**
Agorodd yr uned pobl ifanc hon ym Mawrth 2002 ac mae ganddi gyfleuster 28 ystafell i bobl ifanc ar remand. Yn Hydref 2004, ehangodd yr uned i ddal 36 o bobl ifanc ar remand ac wedi'u dedfrydu, gan ehangu ymhellach yn 2007 i ddal 64 o bobl ifanc.
Roedd yr uned yn gwasanaethu llysoedd yn ne a chanolbarth Cymru'n wreiddiol. Ym Mawrth 2013 fe wnaeth dalgylch y carchar ymestyn i ogledd a de Gwlad yr Haf, Dyfnaint a Chernyw, ac yn Ebrill 2014 i Fryste, Swindon a Wiltshire.

**Disgrifiad byr o'r unedau preswyl**
Mae gan yr uned, a elwir yn uned John Charles, ddwy uned breswyl, G1 yn dal 36 o bobl ifanc ac E1 yn dal 28 o bobl ifanc.

**Enw'r cyfarwyddwr**
Janet Wallsgrove

**Contractwr hebrwng**
GeoAmey

**Comisiynydd gwasanaeth iechyd a darparwyr**
G4S

**Darparwyr dysgu a sgiliau**
G4S

**Cadeirydd Bwrdd Monitro Annibynnol**
Jean Davies

# Ynglŷn â'radrodddiad a'r arolygiad hwn

A1 Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn sefydliad statudol, annibynnol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai hynny sydd wedi'u cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, cyfleusterau cadw mewnfudwyr a dalfeydd yr heddlu.

A2 Mae pob arolygiad a gynhelir gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a Thriniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT). Yn ôl OPCAT mae'n ofynnol bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob dalfa – a adwaenir fel y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) – sy'n monitro triniaeth ac amodau rhai mewn caethiwed. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn un o sawl corff sy'n rhan o'r NPM yn y DU.

A3 Mae pob un o adroddiadau'r Arolygiaeth Carchardai yn cynnwys crynodeb o berfformiad y sefydliad yn erbyn model carchar iach. Y pedwar prawf o garchar iach yw:

| | |
|---|---|
| **Diogelwch** | bod plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel |
| **Parch** | bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch i'w hurddas fel pobl |
| **Gweithgaredd pwrpasol** | bod plant a phobl ifanc yn gallu, ac y disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt |
| **Ailsefydlu** | bod plant a phobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned ac yn cael help effeithiol i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu |

A4 O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ac felly o berfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mewn rhai achosion, effeithir ar y canlyniad hwn gan faterion sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad, lle bydd angen rhoi sylw cenedlaethol iddynt.

- **mae'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Nid oes dim tystiolaeth bod y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd pwysig.

- **mae'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i blant a phobl ifanc mewn nifer fach yn unig o feysydd. Yn achos y mwyafrif, nid oes pryderon mawr. Mae gweithdrefnau i ddiogelu canlyniadau ar waith.

- **nid yw'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Mae tystiolaeth bod canlyniadau plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn sawl maes neu'n benodol yn y meysydd hynny o'r pwys mwyaf i'w lles. Mae problemau / pryderon, os na chânt sylw, yn debygol o ddatblygu i fod yn feysydd o bryder difrifol.

- **mae'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn wael yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
  Mae tystiolaeth bod canlyniadau plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n fawr gan yr arferion presennol. Mae methiant i sicrhau hyd yn oed triniaeth a / neu amodau boddhaol i'r plant a phobl ifanc. Mae angen cymryd camau ar unwaith i gywiro hyn.

A5 Gall ein hasesiadau arwain at un o'r canlynol:

- **argymhellion**: bydd angen newid sylweddol a / neu adnoddau newydd neu wedi'u hailgyfeirio, na ellir eu cyflawni ar unwaith, a bydd y modd y gweithredir hwy'n cael ei adolygu yn arolygiadau'r dyfodol.

- **pwyntiau cynnal a chadw**: gellir eu cyflawni mewn ychydig ddyddiau, neu wythnosau ar y mwyaf, drwy gyhoeddi cyfarwyddiadau neu newid arferion

- **enghreifftiau o arferion da**: arferion canmoladwy sydd nid yn unig yn cyrraedd neu'n rhagori ar ein disgwyliadau, ond y gallai sefydliadau eraill eu dilyn i gyflawni canlyniadau positif i blant a phobl ifanc.

A6 Mae arolygwyr yn defnyddio pum prif ffynhonnell o dystiolaeth: arsylwi; arolygon barn plant a phobl ifanc; trafodaethau â phlant a phobl ifanc; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennaeth. Yn ystod arolygoiadau rydym yn defnyddio dulliau cymysg wrth gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodoleg ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau'n cael ei thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

A7 Ers Ebrill 2013, mae ein harolygon wedi bod yn ddirybudd, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn disodli'r system flaenorol o brif arolygon llawn â rhybudd a dirybudd gydag arolygon dilynol llawn neu fyr i adolygu cynnydd. Mae ein holl arolygon yn awr yn olrhain argymhellion a wnaethpwyd yn yr arolygiad llawn diwethaf.

A8 Mae'r holl arolygiadau o garchardai yn cael eu cynnal ar y cyd ag Ofsted neu Estyn (Cymru), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Mae'r gwaith ar y cyd yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi ymweliadau arolygu lluosog.

# Yr adroddiad hwn

A9 Dilynir yr esboniad hwn o'n dull gan grynodeb o ganfyddiadau ein harolygiad yn erbyn y pedwar prawf o garchar iach. Dilynir hyn wedyn gan bedair adran sydd i gyd yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein *Expectations. Criteria for assessing the treatment of prisoners and conditions in prisons*. Mae'r rhifau cyfeirio ar ddiwedd rhai argymhellion yn dangos eu bod yn cael eu hailadrodd, ac yn rhoi lleoliad paragraff yr argymhelliad blaenorol yn yr adroddiad diwethaf. Mae Adran 5 yn coladu'r holl argymhellion, y pwyntiau cynnal a chadw a'r enghreifftiau o arferion da sy'n deillio o'r arolygiad. Mae Atodiad II yn rhestru argymhellion o'r arolygiad diwethaf, a'n hasesiad ynghylch a ydynt wedi cyflawni ai peidio.

A10 Ceir manylion am y tîm arolygu a phroffil poblogaeth y carchar yn Atodiadau I a III yn y drefn honno.

A11 Mae canfyddiadau arolwg barn y plant a phobl ifanc a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg i'w gweld yn Atodiad IV yr adroddiad hwn. Sylwer ein bod yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau cymharol neu arolygon blaenorol pan fydd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol yn unig. [1]

[1] Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i phennu ar 0.05, sy'n golygu mai dim ond 5% o siawns sydd bod y gwahaniaeth mewn canlyniadau wedi digwydd drwy siawns

# Crynodeb

## Diogelwch

A1 Mae plant yn parhau i gyrraedd yn hwyr yn y nos ar ôl teithiau hir. Cafodd newydd-ddyfodiaid ofal da ac roedd gweithdrefnau dyddiau cynnar yn dda iawn. Roedd y trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn parhau i fod yn effeithiol. Roedd hunan-niweidio yn cael ei reoli'n dda a phlant mewn argyfwng yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Roedd mwy o ymladd ac ymosodiadau nag ar adeg yr arolygiad blaenorol ac roedd hydref 2015 wedi bod yn gyfnod arbennig o gythryblus i fechgyn a staff. Yn ein harolwg, dywedodd 42% o fechgyn eu bod yn cael eu herlid gan y staff. Roedd defnydd uchel o weithdrefnau disgyblu a grym ond roedd goruchwyliaeth yn weddol dda. Roedd y cynllun gwobrau a chosbau yn well nag yr ydym fel arfer yn ei weld ac anaml y byddai bechgyn yn cael eu gwahanu. Roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n dda. Roedd canlyniadau plant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

A2 Yn ystod yr arolygiad diwethaf ym Mai 2014, canfuom fod canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom bedwar argymhelliad am ddiogelwch. Yn yr arolygiad dilynol hwn fe wnaethom ganfod bod un o'r argymhellion wedi'i gyflawni'n rhannol ac nad oedd tri wedi cael eu cyflawni.

A3 Roedd plant yn dal i wynebu oedi annerbyniol yn y llys, teithiau hir gyda charcharorion sy'n oedolion ac yn cyrraedd yn hwyr yn y Parc. Yn ein cyfweliadau unigol, disgrifiodd y plant fod eu profiad o gael eu derbyn yn ddigonol, yn wahanol i ganlyniadau'r arolwg negyddol. Gwelsom staff oedd yn derbyn yn trin bachgen gyda gofal a sensitifrwydd. Roedd y broses ymsefydlu yn drylwyr ac yn ymgysylltu â'r bechgyn yn dda. Roedd y llawlyfr ymsefydlu wedi'i gynllunio yn dda ac roedd yn darparu cyfrif realistig o fywyd yn yr uned.

A4 Darparodd sesiynau briffio staff amlddisgyblaethol dyddiol wedi'u cyfuno â chyfarfodydd strategol chwarterol a gweithredol misol, fframwaith gadarn ar gyfer rheoli diogelu. Roedd nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn plant wedi cynyddu ychydig, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â defnyddio grym. Cafodd y rhain eu hatgyfeirio'n briodol ar gyfer ymchwiliad allanol. Roedd y cyfarwyddwr wedi cymryd camau cadarn yn ddiweddar i ddiswyddo aelod o staff a oedd wedi defnyddio grym gormodol yn ystod digwyddiad digymell pan ddefnyddiwyd grym.

A5 Roedd bechgyn mewn argyfwng yn teimlo eu bod yn cael gofal da, ac roedd staff yn wybodus am eu hamgylchiadau unigol. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 47 ACCT[2] wedi cael eu hagor, yn debyg i'n harolygiad diwethaf. Roedd ansawdd y ddogfennaeth ACCT yn ardderchog.

A6 Yn ein harolwg, roedd gormod o fechgyn yn teimlo na fyddai'r staff yn eu cymryd o ddifrif os oeddynt yn rhoi gwybod am erledigaeth. Er gwaethaf hyn, cawsom hyd i ymyriadau da i herio bwlio ac ymddygiad bygythiol. Roedd angen gwneud mwy o waith i roi sicrwydd i fechgyn bod staff yn cymryd bwlio o ddifrif. Roeddem yn arbennig o bryderus bod dwywaith cymaint o fechgyn wedi rhoi gwybod eu bod yn cael eu herlid gan staff nag yn yr arolygiad blaenorol.

A7 Dywedodd bron i chwarter y bechgyn eu bod wedi cael eu taro, eu cicio neu wedi dioddef ymosodiad gan fachgen arall yn y Parc. Cafwyd 79 o ymosodiadau ar blant yn y chwe mis blaenorol, yn fwy nag mewn sefydliad troseddwyr ifanc arall, ac roedd staff wedi nodi bod trais gan ddau fachgen yn cyfrannu at y nifer uchel. Roedd ymchwiliadau i fwlio a digwyddiadau treisgar yn brydlon ac yn drylwyr. Roedd

[2] Asesu, rheoli achosion gofal dan glo a gwaith tîm ar gyfer carcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan niwed yn dda iawn

tramgwyddwyr yn cael eu herio'n gadarn ac, os oedd angen, yn cael eu monitro. Roedd pum llyfryn lleihau trais wedi cael eu hagor yn y chwe mis blaenorol, yn fwy nag yn yr arolygiad diwethaf. Roedd cofnodion arsylwi, cynlluniau cymorth ac adolygiadau achos i gyd yn dda iawn. Roedd cyfryngu'n cael ei gynnig yn rheolaidd ac yn aml yn llwyddiannus.

A8 Roedd yr uned wedi cael heriau sylweddol ag ymddygiad yn ystod hydref 2015 gyda lefelau uchel o drais, grym a dyfarniadau. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr uned yn fwy sefydlog, ond roedd angen gweithredu i sicrhau nad oedd rhai plant yn cael effaith debyg yn y dyfodol.

A9 Roedd bechgyn yn deall y cynllun cymhellion ac yn cael eu hysgogi i gyrraedd y lefelau uwch. Roedd llai o fechgyn ar y lefel aur nag ar yr arolygiad blaenorol ac roedd canlyniadau arolygon blaenorol yn dangos bod llai o fechgyn yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg o fewn y cynllun. Fodd bynnag, roedd bechgyn yn gallu apelio yn erbyn penderfyniadau ac weithiau'n llwyddiannus.

A10 Roedd diogelwch yn cael ei reoli'n dda ac yn gymesur. Gweithredwyd yn gyflym ar ôl cael gwybodaeth ac ni wnaeth mesurau diogelwch gyfyngu'n ormodol ar fynediad at y gyfundrefn.

A11 Roedd defnydd o'r system ddyfarnu wedi mwy na dyblu ers yr arolygiad diwethaf, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn trais yn ystod y chwe mis blaenorol. Roedd cofnodion yn dangos bod dyfarniadau yn parhau i gael eu cynnal yn dda ac roedd cosbau'n deg ac yn gyson. Roedd y system mân adroddiadau'n cael ei ddefnyddio'n briodol am droseddau llai difrifol.

A12 Roedd y defnydd o rym wedi treblu ers yr arolygiad diwethaf ac yn uwch na sefydliadau tebyg. Nid oedd wyth deg y cant o achosion yn cynnwys technegau rheoli ac atal a gwelsom enghreifftiau o atal digwyddiadau rhag gwaethygu. Roedd lleiafrif o ffilm a welsom yn dangos camau gwael o ran atal digwyddiadau rhag gwaethygu gan staff. Roedd yn amhriodol bod staff o'r unedau oedolion yn cael eu defnyddio i ymateb i ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â phlant.

A13 Roedd goruchwylio'r defnydd o rym yn weddol dda. Fodd bynnag, mewn cyfweliadau dywedodd rhai bechgyn wrthym eu bod wedi cael eu brifo yn ystod ataliaeth a ddigwyddodd mewn ardaloedd heb TCC. Roedd y sefydliad wedi cyflwyno camerâu ar y corff yn ddiweddar ar gyfer rheolwyr, ond roedd angen mwy i ddiogelu bechgyn a staff.

A14 Roedd y defnydd o arwahanu wedi aros yn glodwiw o isel. Roedd defnyddio gwahaniad sengl am gyfnodau byr ar leoliad arferol yn fwy aml. Roedd bechgyn wedi'u harwahanu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael cefnogaeth i'w helpu i ailintegreiddio. Roedd gan yr holl blant wedi'u gwahanu fynediad i gyfundrefn gweithgaredd llawn, ymarfer corff a chawod bob dydd. Roedd nifer y bechgyn a oedd yn ynysu eu hunain er mwyn eu diogelwch eu hunain yn isel.

A15 Roedd profion cyffuriau gorfodol yn briodol ac yn anrhagweladwy. Cafodd profion amheuaeth eu cynnal yn brydlon. Cafwyd pedwar prawf cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pob un ac eithrio un ar gyfer canabis. Roedd ystod addas o ymyriadau'n cynnwys pob sylwedd a ddefnyddir yn gyffredin, gan gynnwys canabis, alcohol a sylweddau seicoweithredol[3] newydd, ac roedd cydbwysedd rhwng codi ymwybyddiaeth, strategaethau ymdopi a lleihau niwed.

[3] Cyffuriau newydd sy'n cael eu datblygu neu eu dewis i ddynwared effeithiau cyffuriau anghyfreithlon fel canabis, heroin neu amffetaminau a gallant gael effeithiau anrhagweladwy ac sy'n bygwth bywyd.

# Parch

A16 A18 Roedd amodau byw yn rhesymol. Roedd cyflwyno ffonau yn y gell ac unedau terfynellau electronig yn gadarnhaol. Nid oedd y berthynas rhwng staff a phlant gystal â'r arolygiad diwethaf. Gwelsom ryngweithio rhagorol ond hefyd diffyg ymgysylltiad gan rai staff. Roedd rheoli cydraddoldeb yn wael ond cafodd hyn ei liniaru gan y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigol. Roedd y gaplaniaeth yn parhau i ymgysylltu â staff yr uned ac yn rhoi cymorth gwerthfawr i fechgyn. Roedd y system gwynion yn gweithio'n dda. Roedd gofal iechyd yn parhau i fod yn dda. Roedd bwyd yn rhesymol a bechgyn yn parhau i fwyta'n gymunedol. Roedd canlyniadau plant a phobl ifanc yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

A17 Yn ystod yr arolygiad diwethaf ym Mai 2014, canfuom fod canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 12 o argymhellion am barch.[4] Yn yr arolygiad dilynol hwn fe wnaethom ganfod bod dau o'r argymhellion wedi'u cyflawni, un wedi'i gyflawni'n rhannol, wyth heb eu cyflawni ac roedd un bellach yn amherthnasol.

A12 Cafodd yr unedau preswyl eu cynnal a'u cadw'n dda, ond roedd y ffenestri mewn celloedd mewn cyflwr gwael, wedi'u crafu ac yn fudr. Roedd rhai celloedd, gan gynnwys rhywfaint o lety noson gyntaf, gyda matresi budr a gobenyddion wedi'u staenio. Roedd awyru mewn rhai celloedd yn wael ac roedd sgriniau toiled mewn celloedd dwbl yn parhau i fod yn annigonol. Roedd celloedd a rannwyd yn rhy gyfyng i bob bachgen gael cadair, ac fe wnaethom ganfod rhai celloedd heb unrhyw gadeiriau. Roedd cyflwyno ffonau yn y gell a pheiriannau electronig yn gadarnhaol. Roedd mynediad i gawodydd yn parhau'n dda ond roedd angen gwella ar beth sgrinio.

A19 Roedd perthynas rhwng staff a phlant yn fwy amrywiol na'r arolygiad diwethaf. Er bod y rhan fwyaf o ryngweithio a welsom yn gadarnhaol, roedd rhai cysylltiadau yn fwy pell. Yn ein harolwg, dim ond 55% o blant ddywedodd fod y rhan fwyaf o'r staff yn eu trin â pharch ac roedd dros draean yn dweud na fyddent ag unrhyw un i droi atynt os oedd ganddynt broblem.

A20 Roedd rheolaeth strategol o waith cydraddoldeb yn wael. Nid oedd staff yr Uned yn bresennol yn y cyfarfod tîm gweithredu cynhwysiant cymunedol, lle nad oedd unrhyw drafodaeth ar brofiadau plant a dim cynllunio gweithredu ar gyfer yr uned. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau o wahaniaethu yn ddigonol, ac roedd ymyriadau da ar gyfer plant a oedd wedi cael eu canfod o fod yn wahaniaethol, rhywbeth na fyddwn yn ei weld yn aml. Roedd angen gwella ymgynghori ar gydraddoldeb. Roedd y tîm addysg wedi datblygu rhai dosbarthiadau arbennig o dda ar faterion amrywiaeth.

A21 Dywedodd bechgyn o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig wrthym nad oeddent yn meddwl eu bod yn cael eu trin yn wahanol ac nid oeddent yn profi llawer o hiliaeth. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am anghenion arbennig y plant yn eu gofal. Roedd y ddarpariaeth ffydd yn gyffredinol dda a chefnogaeth fugeiliol yn gryf.

A22 Roedd mynediad da at ffurflenni cwynion ar yr adain gyda blychau gweladwy. Roedd staff yn aml yn helpu bechgyn i ysgrifennu eu cwynion. Roedd yr ymatebion a samplwyd gennym fel arfer gan reolwyr gweithredol ac roeddent yn brydlon, yn gwrtais ac yn briodol i oedran.

A23 Cafodd yr holl fechgyn eu hasesu gan nyrs ar gyfer anghenion ar unwaith; dilynwyd hyn gan gyfres o asesiadau iechyd cynhwysfawr ar gyfer anghenion corfforol, iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anghenion camddefnyddio sylweddau. Roedd ychydig o asesiadau yn hwyr yn cael eu cwblhau. Yn ein harolwg, dywedodd mwy o fechgyn bod ganddynt fynediad da at y nyrs, y meddyg a'r deintydd nag

[4] Mae hyn yn cynnwys argymhellion am y cynllun cymhellion a breintiau a enillwyd sydd, yn ein Disgwyliadau wedi'u diweddaru (Fersiwn 4, 2012), nawr yn ymddangos o dan y maes carchar iach o ddiogelwch.

mewn carchardai cymharol. Canfuom fod ganddynt fynediad dyddiol da iawn i nyrs ar yr uned ac yn gallu mynd i apwyntiadau meddyg teulu, deintydd a gofal sylfaenol eraill o fewn slot amser neilltuedig yn uned gofal iechyd y carchar.

A24 Roedd bechgyn yn adnabod nyrs yr uned ac mae hi wedi cyfrannu at yr holl gyfarfodydd allweddol ac adolygiadau unigol; dangosodd staff iechyd berthynas dda gyda bechgyn. Roedd y rhan fwyaf o waith hybu iechyd yn unigol ac oportiwnistaidd ac roedd lle ar gyfer gwaith wedi'i dargedu ar themâu sy'n addas i'w hoedran. Roedd Imiwneiddio ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed a chlefydau plentyndod wedi’u hyrwyddo'n dda gyda monitro effeithiol o’r niferoedd a oedd yn ei dderbyn. Roedd rheoli meddyginiaethau yn rhesymol.

A25 Roedd mynediad at y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ardderchog, ond nid oedd unrhyw therapi iaith a lleferydd ar gyfer bechgyn, gyda llawer ohonynt gyda sgiliau cyfathrebu ac iaith wael.

A26 Roedd ystod ac ansawdd y bwyd yn rhesymol, er nad oedd y plant y siaradwyd â hwy yn ei fwynhau. Roedd yr holl brydau bwyd yn cael eu bwyta’n gymunedol mewn awyrgylch tawel, gan roi cyfle i gymdeithasu. Roedd trefniadau’r ffreutur yn weddol dda.

## Gweithgaredd pwrpasol

A27 Roedd amser allan o'r gell yn well nag yr ydym yn ei weld fel arfer.<0} Roedd rheolaeth strategol addysg, dysgu a sgiliau wedi dirywio ac roedd bellach yn ddigonol. Roedd y cwricwlwm craidd yn eang a chytbwys. Dim ond digonol oedd y cwricwlwm galwedigaethol yn unig ac roedd bechgyn â llai o ddewisiadau nag yr oeddem wedi’u canfod yn flaenorol. Roedd gan y staff addysgu berthynas broffesiynol effeithiol iawn gyda'r bechgyn ac roedd ymddygiad yn dda iawn. Roedd bechgyn yn ymgysylltu'n dda gyda'u dysgu. Roedd lefelau cyrhaeddiad yn dda ac roedd y mwyafrif o fechgyn yn gwneud cynnydd mewn gwersi. Roedd cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ddigonol. Roedd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer profiad gwaith. Roedd bechgyn yn gwneud defnydd da o'r llyfrgell. Roedd canlyniadau plant a phobl ifanc yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

A28 Yn ystod yr arolygiad diwethaf ym Mai 2014, canfuom fod canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom chwe argymhelliad ynglŷn â gweithgareddau i bwrpas. Yn yr arolygiad dilynol hwn fe wnaethom ganfod bod tri o'r argymhellion wedi’u cyflawni, un wedi’i gyflawni'n rhannol ac nad oedd dau wedi cael eu cyflawni.

A29 Fe wnaeth y rhan fwyaf o fechgyn barhau i gael llawer o amser allan o'u celloedd bob dydd, gan gynnwys amser ar gyfer cymdeithasu a thu allan yn yr awyr iach. Fodd bynnag, roedd amser y tu allan yn gyfyngedig i iardiau bach. Ar gyfer yr ychydig o fechgyn a oedd yn ynysu eu hunain, roedd amser allan o'r gell yn llawer llai ac yn annigonol.

A30 Roedd goruchwyliaeth addysgol wedi dirywio ers yr arolygiad diwethaf. Roedd systemau i gasglu a dadansoddi data wedi'u datblygu'n dda a rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o feincnodau i asesu eu perfformiad eu hunain. Roedd sicrhau ansawdd gwaith cymhwyster yn gadarn a systemau dilysu mewnol yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd angen gwella gwiriadau ansawdd gwaith dysgwyr a chynnydd. Roedd staff yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda.

A31 Roedd plant yn cael eu dyrannu yn brydlon i ddosbarthiadau ac roedd y rhan fwyaf yn gallu bod yn bresennol ar y llwybr dysgu o'u dewis. Fodd bynnag, nid oedd y llwybrau hyn yn darparu rhaglen ddysgu strwythuredig. Roedd anghenion plant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, yn cael eu hadnabod yn dda drwy gynllun addysg unigol llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd targedau ar gyfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn rhy generig. Roedd bechgyn yn cael mynediad at gwricwlwm craidd o

safon addas, ond nid oedd yr ystod o opsiynau galwedigaethol yn helaeth. Cafodd hunan-barch a hunanhyder bechgyn eu gwella drwy eu haddysg. Roedd ymddygiad mewn addysg yn gyffredinol dda. Roedd ymddygiad gwael yn cael ei reoli'n effeithlon ac nid oedd ond ychydig iawn o waharddiadau o addysg.

A32 Gwnaeth y bechgyn gynnydd cyfyngedig mewn llythrennedd a rhifedd. Ar y llaw arall, roeddent yn gwneud cynnydd da mewn pynciau galwedigaethol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol drwy raglen ddinasyddiaeth wedi'i chynllunio'n dda ac yn briodol. Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol neu addysg bellach. Enillodd y bechgyn dystysgrifau a chymwysterau perthnasol a defnyddiol a oedd yn rhoi sylfaen dda iddynt ar gyfer dysgu addysgol neu dysgu seiliedig ar waith yn y dyfodol.

A33 Roedd athrawon yn gosod amcanion dysgu clir yn y rhan fwyaf o wersi ac yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o strategaethau addysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid oedd y gweithgareddau dysgu'n herio bechgyn yn ddigonol. Nid oedd medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn cael eu cydlynu ar draws y cwricwlwm. Er bod y rhan fwyaf o farcio'n gyfredol ac yn darparu anogaeth briodol, nid oedd yn dweud wrth fechgyn beth oedd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

A34 Roedd y llyfrgell gyda llyfrau newydd yn rhoi ystod briodol o deitlau, gan gynnwys detholiad da o lyfrau Cymraeg. Roedd llawer o fechgyn yn defnyddio'r llyfrgell yn effeithiol i ddewis llyfrau i'w darllen er mwyn pleser neu i gefnogi eu rhaglenni addysg.

A35 Roedd mynediad i ymarfer corff yn dda ond roedd diffyg cyfleusterau addas yn cyfyngu ar ystod o weithgareddau dan do. Roedd bechgyn a oedd yn dilyn yr Academi Ffitrwydd a llwybrau Addysg Gorfforol gyda mynediad da i gwricwlwm Addysg Gorfforol wedi'u cynllunio'n dda a oedd yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, gan eu galluogi i ennill cymwysterau ystyrlon.

## Ailsefydlu

*A36 Roedd ailsefydlu'n cael ei reoli'n eithaf da. Roedd tîm o weithwyr achos ymroddedig yn sicrhau bod hyfforddiant neu gynlluniau rheoli remand ar waith, a bod adolygiadau'n ystyrlon. Nid oedd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) wedi'i ddefnyddio yn y chwe mis blaenorol. Er gwaethaf ymdrechion staff yr uned, roedd plant sy'n derbyn gofal yn cael cefnogaeth amrywiol gan awdurdodau lleol. Roedd darpariaeth ailsefydlu'n wedi'i threfnu'n dda ond nid oedd bechgyn yn gallu agor cyfrifon banc mwyach, ac yn rhy aml nid oedd llety wedi'i ganfod mewn da bryd cyn cael eu rhyddhau. Roedd cefnogaeth i gynnal cysylltiadau teuluol yn parhau i fod yn dda iawn ac roedd cyflwyno Skype yn ganmoladwy. Roedd canlyniadau plant a phobl ifanc yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.*

*A37 Yn ystod yr arolygiad diwethaf ym Mai 2014, canfuom fod canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y Parc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom naw argymhelliad ynglŷn ag ailsefydlu. Yn yr arolygiad dilynol hwn, canfuom fod dau o'r argymhellion wedi'u cyflawni, dau wedi'u cyflawni'n rhannol, a phump heb eu cyflawni.*

A38 Roedd y polisi ailsefydlu yn weddol gynhwysfawr ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i gychwyn y dadansoddiad o anghenion sy'n ddyledus yn 2016. Cafodd rhyddhau cynnar ei ddefnyddio'n briodol i adnabod bechgyn a oedd yn symud ymlaen yn dda ac roedd bechgyn a oedd yn gymwys ar gyfer cyrffyw cadw yn y cartref wedi cael eu haddasrwydd wedi'i asesu'n briodol. Ni fu unrhyw ddefnydd o ROTL ers mis Mai 2015. Roedd trefniadau trosglwyddo ar gyfer bechgyn a symudodd i'r safle oedolion yn y Parc yn cael ei reoli'n dda, ond gyda llai o reolaeth ar gyfer y rhai a symudodd i garchardai eraill i oedolion. Nid oedd camau dilynol systematig ar ôl rhyddhau yn eu lle.

A39 Arweiniodd tîm o weithwyr achos ymroddedig y gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau neu drosglwyddo ac roedd gan bob bachgen weithiwr achos a chynllun hyfforddi neu reoli remand. Roedd cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant a rheoli remand yn amserol gyda phresenoldeb da yn gyffredinol, ond yn aml nid oedd gweithwyr allweddol yn bresennol. Rheolwyd y cyfarfodydd yn dda ac roedd staff yn galluogi bechgyn i gyfrannu'n dda.

A40 Cyfarfu'r pwyllgor rheoli risg pryd bynnag y nodwyd bachgen o fod yn risg a chafodd achosion diogelu'r cyhoedd eu nodi a'u rheoli'n briodol.

A41 Roedd plant sy'n derbyn gofal yn dair gwaith fwy tebygol o adrodd profiad o erledigaeth gan fechgyn eraill na'u cymheiriaid. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff y carchar, parhaodd awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth anghyson ac weithiau annigonol i blant yn ystod eu hamser yn y Parc ac ar ôl eu rhyddhau.

A42 Nodwyd anghenion llety yn gynnar, trafodwyd gydag asiantaethau cymunedol perthnasol mewn cyfarfodydd cynllunio ac fe gafodd ei symud ymlaen i uwch reolwyr a ffynonellau eraill o gymorth lle bo angen hynny. Er gwaethaf ymdrechion staff yr uned, roedd gormod o fechgyn yn gorfod aros tan yn agos at eu dyddiadau rhyddhau er mwyn cael cadarnhad o gyfeiriad. Roedd un plentyn wedi cael ei ryddhau heb gyfeiriad i fynd iddo, a oedd yn annerbyniol. Cymerodd gweithwyr achos yr awenau o ran helpu bechgyn i gael gafael ar gymorth gyda materion ariannol. Nid oeddent yn gallu agor cyfrifon banc mwyach cyn gadael y Parc.

A43 Roedd cynlluniau priodol ar waith ar gyfer bechgyn yn symud i garchar oedolion i barhau â'u haddysg. Roedd bechgyn yn elwa o gyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn ystod eu dysgu ac roedd gan staff ffocws clir ar eu hanghenion a'u dyheadau at y dyfodol.

A44 Roedd pob plentyn yn cael eu gweld cyn eu rhyddhau gan nyrs a oedd â chysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau iechyd lleol ac asiantaethau cyffuriau ac alcohol cymunedol trwy'r timau troseddau ieuenctid.

A45 Roedd cyfleusterau ymweliadau yn ddigonol ac roedd y sesiwn a welsom yn hamddenol iawn. Roedd gan fechgyn ffonau yn eu celloedd a oedd wedi gwella'n fawr eu gallu i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Roedd yr uned yn rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau o'r teulu yn brydlon am bob digwyddiad arwyddocaol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r bechgyn nad oeddent yn cael ymweliadau a rhoddodd staff gymorth i'w helpu i ddelio â hyn. Roedd Skype wedi'i gyflwyno er mwyn helpu bechgyn i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu. Er bod y nifer a fanteisiodd ar hyn wedi bod yn isel hyd yn hyn, roedd hyn yn ddatblygiad arwyddocaol gyda photensial mawr, yn enwedig ar gyfer bechgyn o gefndir gwladolyn tramor.

A46 Roedd bechgyn â mynediad at ystod o ymyriadau a roddwyd gan staff yr uned, er nad oedd unrhyw ymyriadau ar gyfer bechgyn a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol.

# Adran 1. Diogelwch

## Llysoedd, hebrwng a throsglwyddo

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu trosglwyddo i'r sefydliad ac oddi yno'n cael eu trin yn ddiogel, yn weddus ac yn effeithlon.**

**1.1** *Roedd anawsterau hirsefydlog yn parhau dros gludo plant i'r carchar. Er iddynt gael eu dogfennu'n drylwyr gan y carchar, nid oedd unrhyw ddull i ddatrys hyn.*

**1.2** Roedd plant yn dal i gael eu dal yn rheolaidd yn y llys am bedair neu bum awr ar ôl i'w hachosion gael sylw. Dangosodd canlyniadau ein harolwg bod 8% o fechgyn yn treulio mwy na phedair awr yn y fan yn teithio i'r carchar, yn debyg i'r arolygiad blaenorol.

**1.3** Roedd yn bryder nodi bod 68% o blant yn ein harolwg wedi adrodd eu bod yn rhannu cludiant gydag oedolion, yn erbyn cymharydd o 34% a 41% yn yr arolygiad blaenorol.

**1.4** Parhaodd blant i gael eu derbyn yn hwyr i'r sefydliad ar adegau. Roedd y carchar yn cadw cofnodion manwl o'r amser roedd plant yn parhau i fod yn y llys ar ôl i'w hachosion ddod i ben ac o gyrraedd yn hwyr. Gellid nodi ffynhonnell y problemau o'r ffurflenni misol. Er iddynt gael eu gwahodd, nid oedd y darparwr hebrwng yn bresennol yn y cyfarfodydd diogelu lle dylai'r materion hyn fod wedi cael eu trafod.

**1.5** Dangosodd cofnodion carchar bod pellter plant yn y Parc o'u cartrefi heb newid llawer ers yr arolygiad diwethaf. Roedd ychydig dros hanner yn byw llai na 50 milltir i ffwrdd.

### Argymhelliad

**1.6** **Dylai plant gael eu cludo i'r ddalfa cyn gynted ag y bydd eu hachos wedi gorffen. Dylent gael eu cludo ar wahân i oedolion a chyrraedd Parc cyn 7pm.**

### Pwynt cadw tŷ

**1.7** Dylai cynrychiolydd y darparwr hebrwng fynychu cyfarfodydd diogelu fel y gall problemau sy'n ymwneud â chludo plant i'r carchar gael eu trafod.

## Dyddiau cynnar yn y ddalfa

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo'n ddiogel wrth iddynt gyrraedd y carchar ac am yr ychydig ddyddiau cyntaf yn y ddalfa. Caiff anghenion unigol plant a phobl ifanc eu nodi a'u trin, ac maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth ar eu noson gyntaf. Yn ystod cyfnod sefydlu person ifanc, mae ef / hi yn cael gwybod am drefn y sefydliad, sut i gael mynediad i wasanaethau sydd ar gael a sut i ymdopi â bod yn y ddalfa.**

**1.8** *Roedd canlyniadau ein harolwg ynglŷn â thriniaeth wrth gyrraedd yn waeth na'r arolygiad blaenorol, ond yn wrthgyferbyniad i hyn, cawsom adborth rhesymol o gyfweliadau unigol ac un arsylwad cadarnhaol. Yn gyffredinol, cafodd bechgyn eu trin yn rhesymol dda wrth eu derbyn.*

**1.9** Roedd gweithdrefnau derbyn yn aros yr un fath, ond yn ein harolwg dywedodd 61% o fechgyn eu bod wedi cael chwiliad parchus a 46% yn dweud eu bod wedi'u trin yn dda yn y dderbynfa yn erbyn 83% a 78% yn y drefn honno yn yr arolygiad blaenorol.

**1.10** Dywedodd pum deg un y cant o fechgyn eu bod yn cael trafferth cysylltu â'u teulu pan wnaethant gyrraedd gyntaf o gymharu â 24% o'r blaen, ac fe wnaeth llawer llai o unigolion na'r cymharydd ddweud eu bod wedi cael galwad ffôn am ddim wrth gyrraedd neu PIN credyd ffôn.

**1.11** Mewn cyferbyniad, roedd yr adborth am y dderbynfa gan fechgyn yn ystod cyfweliadau unigol yn llai beirniadol ac fe wnaethant ddisgrifio'r ddarpariaeth yn ddigonol. Fe wnaeth yr un derbyniad newydd yr arsylwyd gennym gael ei wneud yn dda, â'r staff yn ymddwyn mewn ffordd gyfeillgar a chysurlon tuag at y bachgen.

**1.12** Roedd ffurflenni asesu risg a rheoli wedi eu cwblhau'n drylwyr ac fe wnaeth y staff ddefnydd da o ddeunydd asesu a gawsant o flaen llaw a gwybodaeth a gafwyd oddi wrth y bechgyn, i gyrraedd barn gytbwys.

**1.13** Roedd y broses ymsefydlu yn drylwyr ac yn ymgysylltu â'r bechgyn yn dda. Fe wnaeth y swyddog a gyflwynodd y rhan fwyaf o'r sesiynau drin y bechgyn fel unigolion. Yr oedd yn fedrus ac yn cymryd balchder yn ei waith. Roedd y llawlyfr sefydlu wedi'i gynllunio'n dda ac roedd yn darparu cyfrif realistig o fywyd yn yr uned. Fodd bynnag, nid oedd ar gael mewn ieithoedd eraill. Ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu, gwnaed gwiriad trylwyr i sicrhau bod y bechgyn wedi derbyn yr holl wybodaeth ofynnol.

### Argymhelliad

**1.14** **Dylai'r llawlyfr sefydlu fod ar gael yn y prif ieithoedd a siaredir gan blant sy'n wladolion tramor.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.14)

### Arfer Da

**1.15** *Roedd y llawlyfr sefydlu wedi'i gynllunio'n dda ac roedd yn darparu cyfrif realistig o fywyd yn yr uned.*

# Gofal ac amddiffyn plant a phobl ifanc

# Diogelu

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Roedd y sefydliad yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac yn eu hamddiffyn rhag pob math o niwed ac esgeulustod.**

**1.16** *Roedd cyfarfodydd strategol chwarterol a gweithredol misol, ynghyd â briffiau staff amlddisgyblaethol, dyddiol, yn darparu fframwaith cadarn i reoli diogelu.*

**1.17** Cynhaliwyd cyfarfod amlddisgyblaethol yn yr uned bob dydd a fynychwyd gan staff a oedd yn gweithio ar yr uned. Roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu am risg a bregusrwydd yr holl blant ar yr uned.

**1.18** Cafwyd presenoldeb da yn y cyfarfodydd diogelu gweithredol misol. Roedd gwybodaeth fanwl, gymharol am bob agwedd ar ddiogelu'n cael ei chasglu a'i thrafod, a oedd yn helpu i roi darlun clir o dueddiadau mewn meysydd megis hunan-niweidio a defnyddio grym. Yn ogystal, roedd dadansoddiad misol manwl o'r holl gwynion a gyflwynwyd gan blant. Cyfeiriwyd at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhai o'r cyfarfodydd, ond nid oedd y rheolwr cynhwysiant cymunedol oedd yn gyfrifol am y gwaith hwn yn bresennol yn aml.

**1.19** Roedd llywodraethu diogelu'n cael ei oruchwylio gan gyfarfod diogelu chwarterol, dan gadeiryddiaeth y rheolwr uned, a gynhaliwyd yn union y tu allan i wal y carchar i'w gwneud yn haws i gynrychiolwyr cymunedol fod yn bresennol. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar faterion strategol, gan ddefnyddio data cryno o'r cyfarfodydd misol. Roedd cynrychiolwyr o ddau gyfranogwr allweddol, gwasanaethau cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr a Heddlu De Cymru yn mynychu'n rheolaidd. Y bwriad oedd ceisio alinio'r cyfarfod chwarterol gyda fforymau strategol eraill i gynyddu lefel presenoldeb o gyfeiriadau eraill.

## Amddiffyn Plant

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r sefydliad yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth gan oedolion neu blant a phobl ifanc eraill.**

**1.20** *Roedd gwaith amddiffyn plant yn effeithlon ac yn effeithiol. Roedd angen hyfforddiant gloywi amddiffyn plant, ac nid oedd staff yn gwbl ymwybodol o'r polisi codi pryderon.*

**1.21** Roedd y llyfryn sefydlu yn cynnwys cyfrif clir a syml o weithdrefnau amddiffyn plant yn y carchar, gan gynnwys rhestr o bobl hygyrch y gallai bechgyn siarad â nhw os oeddent angen cymorth. Roedd y wybodaeth yn cael ei hysgrifennu mewn ffordd galonogol, gan bwysleisio pwysigrwydd cadw pawb yn ddiogel.

**1.22** Roedd cysylltiadau rhwng y gweithiwr carchar cymdeithasol, a oedd y cydlynydd amddiffyn plant, a gwasanaethau plant yr awdurdod lleol wedi cael eu cryfhau ymhellach ers yr arolygiad blaenorol. Gellid cysylltu â nifer o weithwyr cymdeithasol yn uniongyrchol a dywedwyd wrthym eu bod yn ymateb yn dda i geisiadau am gymorth gan yr uned. Ymgynghorwyd â gweithwyr cymdeithasol cymunedol yn aml am ddigwyddiadau yn yr uned ac fe ddaethant i mewn yn aml i weld lluniau teledu cylch cyfyng. Fe wnaethant gynnal adolygiadau achos mewn achosion mwy difrifol.

**1.23** Ers yr arolygiad diwethaf, roedd nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau amddiffyn plant wedi cynyddu ychydig i ryw ddau y mis, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â defnyddio grym. Fe wnaeth un achos mwy anarferol yn ddiweddar adlewyrchu sylw da i broses briodol. Roedd plentyn wedi honni iddo gael ei gam-drin gan staff a oedd yn ei hebrwng yn ystod trosglwyddiad o sefydliad arall. Derbyniwyd ei gŵyn yn fuan ar ôl iddo gyrraedd y Parc a chafodd ei gyfweld yn brydlon gan yr heddlu lleol a'r staff gwasanaethau cymdeithasol. Ar adeg yr arolygiad, roedd gweithiwr cymdeithasol y carchar yn parhau i olrhain yr achos.

**1.24** Cafodd yr holl atgyfeiriadau amddiffyn plant eu hystyried yn y cyfarfodydd diogelu mewnol. Roedd yr Heddlu a chynrychiolwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn mynychu'r cyfarfodydd diogelu chwarterol yn rheolaidd ac roedd gweithiwr cymdeithasol y carchar yn mynychu'r cyfarfodydd bwrdd lleol diogelu plant (LSCB).

**1.25** Roedd holl staff yr uned wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol mewn amddiffyn plant yn ystod eu cyfnod sefydlu, ond roedd angen hyfforddiant gloywi. Roedd polisi codi pryderon yn cael ei arddangos mewn rhannau o'r carchar oedd yn annog staff i siarad os oeddent yn gweld unrhyw beth o'i le, ond dywedwyd wrthym nad oedd erioed wedi cael ei ddefnyddio. Nid oedd yn glir os oedd y staff yn ddigon ymwybodol o'r polisi hwn ac roedd angen iddo gael mwy o amlygrwydd.

**1.26** Cymerodd y cyfarwyddwr ddiddordeb agos mewn amddiffyn plant ac fe lofnodwyd pob achos, pan gwblhawyd yr holl waith. Roedd hi wedi cymryd camau cadarn yn ddiweddar i ddiswyddo aelod o staff a oedd wedi defnyddio grym gormodol yn ystod digwyddiad digymell lle defnyddiwyd grym.

### Argymhellion

**1.27** **Dylai pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant gael hyfforddiant gloywi ym maes amddiffyn plant.**

**1.28** **Dylid cymryd camau i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’r polisi codi pryderon, ac yn gwybod amdano.**

## Dioddefwyr bwlio a brawychu

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae pawb yn teimlo'n ddiogel rhag bwlio ac erledigaeth. Mae plant a phobl ifanc sydd mewn perygl / yn destun erledigaeth yn cael eu diogelu drwy systemau gweithredol a theg sy’n hysbys i'r staff, pobl ifanc ac ymwelwyr sy'n llywio pob agwedd ar y gyfundrefn.**

**1.29** *Roedd gormod o fechgyn yn teimlo diffyg hyder i roi gwybod am erledigaeth ac roedd llawer yn teimlo eu bod yn cael eu herlid gan staff.*

**1.30** Yn ein harolwg, dywedodd dim ond 22% o fechgyn yn erbyn 48% yn yr arolygiad blaenorol y byddai'r staff yn eu cymryd o ddifrif os byddent yn dweud wrthynt eu bod wedi cael eu herlid. Nid oedd cynlluniau gofal yn cael eu defnyddio i amddiffyn bechgyn a ddywedodd eu bod yn cael eu bwlio, rhag brawychu neu erledigaeth bellach. Gwelsom un bachgen oedd wedi ynysu ei hun yn ei gell ac yn gwrthod dod allan. Roedd y staff wedi rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol ond yn ofer, i’w annog allan o'i gell ac roedd cynlluniau ar y gweill i’w drosglwyddo i sefydliad troseddwyr ifanc gwahanol (YOI). Yn ein harolwg, dywedodd 47% o fechgyn yn erbyn 20% yn yr arolygiad blaenorol eu bod wedi'u herlid gan staff. Er gwaethaf hyn, roedd polisi cynhwysfawr i reoli ymddygiad heriol a strategaeth lleihau trais. Roedd ymyriadau i herio bwlio a brawychu yn dda (gweler yr adran ar leihau bwlio a thrais).

### Argymhellion

**1.31** **Dylai plant deimlo'n hyderus i roi gwybod am fwlio heb ofni bygythiadau pellach.**

**1.32** **Dylai'r rhesymau dros y cynnydd mewn plant sy’n rhoi gwybod am erledigaeth gan staff gael eu hymchwilio, a dylid gweithredu ar y canfyddiadau.**

# Rhwystro hunanladdiad a hunan-niweidio

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r sefydliad yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niwed a hunanladdiad. Caiff plant a phobl ifanc eu hadnabod yn gynnar ac yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o faterion bregusrwydd, ac yn effro iddynt, yn cael eu hyfforddi'n briodol ac mae offer a chymorth addas ar gael iddynt.**

**1.33** *Roedd nifer yr ACCTau[5] yn debyg i'n harolygiad diwethaf. Roedd nifer yr hunan-niweidio yn uwch nag mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd gweithdrefnau ACCT a chefnogaeth i fechgyn mewn argyfwng yn dda iawn. Roedd bechgyn a oedd angen eu harsylwi'n rheolaidd yn cael eu monitro gyda TCC yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Roedd monitro a dadansoddi tueddiadau yn dda.*

**1.34** Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd plant wedi'u cefnogi 47 o weithiau drwy weithdrefnau ACCT, yn debyg i'n harolygiad diwethaf. Cafwyd 31 o achosion o hunan-niwed yn cynnwys 18 o fechgyn, ffigurau uchel o gymharu â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd llawer o achosion o hunan-niweidio yn ymwneud â bechgyn yn colli eu tymer ac yn dyrnu arwynebau caled.

**1.35** Roedd y tri o bobl ifanc a oedd ar ACCTs agored ar adeg ein harolygiad yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn derbyn gofal. Roedd y staff yn wybodus am amgylchiadau unigol y bechgyn.

**1.36** Roedd ansawdd y ddogfennaeth ACCT yn dda iawn. Roedd cynlluniau gweithredu ar unwaith ac asesiadau cychwynnol yn cael eu cynnal yn brydlon. Roedd mapiau gofal yn cynnwys camau gweithredu ystyrlon a ddilynwyd a'u llofnodi. Roedd adolygiadau achos amlddisgyblaeth yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mewn un achos, roedd mam bachgen wedi mynychu'r adolygiad. Roedd y rhan fwyaf o gofnodion arsylwi'n fanwl iawn ac o safon uchel iawn: roeddent yn cofnodi rhyngweithio gwirioneddol gyda'r plentyn ac yn adlewyrchu ei hwyliau. Cafodd yr holl fechgyn eu hadolygu tuag wythnos ar ôl cau'r ACCT a gofynnwyd am adborth ar eu gofal.

**1.37** Yn ystod y chwe mis blaenorol, cafodd saith o fechgyn gyda lefel risg uchel a oedd angen cadw golwg arnynt yn gyson, eu rhoi mewn cell a'u monitro gan TCC yn hytrach nag yn bersonol gan aelod o staff. Roedd hyn yn cyfyngu ar y cyfle i fechgyn mewn argyfwng ryngweithio â staff, a chynyddu'r amser dan glo mewn cell heb neb i siarad â nhw.

**1.38** Cafodd y strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio gynhwysfawr ei hategu gan gynllun gweithredu gwarchodaeth mwy diogel parhaus yn dda. Cyfarfu'r pwyllgor diogelu bob mis. Roedd monitro a dadansoddi tueddiadau yn dda iawn. Gallai bechgyn bellach ffonio'r Samariaid yn uniongyrchol o'u celloedd.

## Argymhelliad

**1.39** **Dylai plant mewn argyfwng sy'n gofyn am arsylwi cyson gael eu monitro wyneb yn wyneb gan y staff ac nid gan deledu cylch cyfyng.**

---

[5] Asesu, gofal yn y ddalfa a rheolaeth achos gwaith tîm o garcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed.

# Rheoli ymddygiad

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus ac ysgogol, lle mae eu hymddygiad da yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg a chyson.**

**1.40** *Roedd yr uned wedi cael problemau rheoli ymddygiad sylweddol yn ddiweddar. Roedd wedi tawelu fwy ar adeg yr arolygiad ac roedd yr ymagwedd tuag at reoli ymddygiad yn weddol dda.*

**1.41** Roedd yr uned wedi profi heriau sylweddol ag ymddygiad yn ystod hydref 2015, gyda lefelau uchel o drais, grym a dyfarniadau. Dywedodd llawer o'r staff a'r plant wrthym fod hwn yn gyfnod anodd i weithio a byw yn y Parc. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr uned yn fwy sefydlog.

**1.42** Yn ein cyfweliadau preifat, dangosodd y plant eu bod yn deall y rheolau a gallent esbonio canlyniadau ymddygiad gwael. Cafodd disgwyliadau ymddygiad eu hesbonio'n glir i'r plant yn unigol yn ystod y cyfnod sefydlu. Cafodd rheolau a threfn yr uned eu harddangos a gallai plant godi materion yn unigol neu drwy gyfarfodydd uned.

**1.43** Yn ein harolwg, roedd plant yn fwy negyddol am rai agweddau ar reoli ymddygiad nag yn yr arolygiad blaenorol. Er ein bod wedi gweld bod polisi cynhwysfawr wedi ei sefydlu ac roedd arfer yn weddol dda, roedd angen adolygiad o'r dull o reoli ymddygiad i weithredu unrhyw wersi o'r hydref blaenorol ac i sicrhau na allai ychydig o fechgyn gael effaith debyg yn y dyfodol .

## Argymhelliad

**1.44** **Dylid gwneud dadansoddiad manwl ar reoli ymddygiad yn ystod hydref 2015, gan ystyried safbwyntiau staff a phlant, fel y gellir dysgu gwersi a rhoi sylw i ddiffygion.**

# Gwobrau a chosbau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cymell gan gynllun cymhellion sy'n gwobrwyo ymdrech ac ymddygiad da ac yn gweithredu cosbau priodol am ymddygiad gwael. Mae'r cynllun yn cael ei gymhwyso yn deg, yn dryloyw ac yn gyson, ac mae'n ysgogol.**

**1.45** *Er nad oedd mor effeithiol â'r cyfnod blaenorol, parhaodd y cynllun gwobrau a chosbau i weithio'n weddol dda a pharhaodd yn ffordd effeithiol o ysgogi bechgyn i ymddwyn yn dda.*

**1.46** Roedd y cynllun gwobrau a chosbau wedi dod yn rhan sefydledig o gyfundrefn yr uned. Fe'i disgrifiwyd yn glir yn y llyfryn sefydlu ac roedd staff a bechgyn yn gyfarwydd â sut roedd yn gweithio.

**1.47** Roedd y cynllun yn cynnwys pedair lefel a dechreuodd pob bachgen ar y trydydd lefel, arian, oni bai iddynt gael eu trosglwyddo i mewn ar lefel uwch. Ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd unrhyw fachgen ar blatinwm, lefel uchaf y cynllun. Roedd digon o wahaniaeth rhwng lefelau i ysgogi bechgyn i symud i fyny a rhoddodd y lefel aur fynediad i ystafell adloniant ag offer da iddynt fin nos. Roedd amodau ar y lefel isaf, efydd, yn cyfyngu ond nid yn gosbol. Cafodd bechgyn gadw peth amser wedi eu datgloi ar gyfer cymdeithasu, tra bod eu cyflog a'u gallu i wario yn gyfyngedig. Roeddem yn falch o weld

nad oedd diwrnodau mynediad at y teulu wedi'i gyfyngu i fechgyn ar y ddwy lefel uwch o'r cynllun mwyach.

**1.48** Roedd nifer y bechgyn ar ddwy lefel uwch y cynllun wedi gostwng o tua hanner i tua thraean ers yr arolygiad blaenorol. Yn ein harolwg, roedd 44% o fechgyn yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg yn y cynllun o'i gymharu â 78% yn yr arolygiad blaenorol. Roedd proses apêl ac ychydig cyn yr arolygiad roedd un bachgen wedi bod yn llwyddiannus o ran cadw ei statws arian.

## Gweithdrefnau diogelwch a disgyblu

**Canlyniadau disgwyliedig:**

**Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal trwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys cudd-wybodaeth diogelwch effeithiol yn ogystal â pherthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant a phobl ifanc. Mae gweithdrefnau disgyblu'n cael eu cymhwyso'n deg ac am reswm da. Mae plant a phobl ifanc yn deall pam eu bod yn cael eu disgyblu a gallant apelio yn erbyn unrhyw gosbau a osodir ar eu cyfer.**

**1.49** *Cafodd diogelwch ei reoli'n dda ac roedd yn gymesur. Gweithredwyd yn brydlon ar gudd-wybodaeth ac ni wnaeth mesurau diogelwch gyfyngu ar fynediad i'r weithdrefn yn ormodol. Roedd defnydd o'r system ddyfarniad wedi mwy na dyblu ers yr arolygiad blaenorol. Roedd cofnodion yn dangos bod dyfarniadau'n parhau i gael eu cynnal yn dda ac roedd cosbau'n deg ac yn gyson. Roedd y system adrodd am fân ddigwyddiadau yn cael ei defnyddio'n briodol ar gyfer troseddau llai difrifol.*

**1.50** Cafodd diogelwch ei reoli'n dda ac roedd yn gymesur â'r peryglon a achosir. Nid oedd mesurau diogelwch yn atal plant rhag cael mynediad at gyfundrefn lawn. Nid oedd noeth-chwilio arferol yn cymryd lle, er i ni ganfod enghraifft o noeth-chwilio dan ataliaeth, a oedd yn amhriodol.

**1.51** Roedd y tîm diogelwch yn gyfrifol am y safle oedolion a'r uned plant. Roedd diogelwch deinamig yn parhau'n gryf; fe wnaeth maint bach yr uned a sefydlogrwydd o fewn y grŵp staff arwain at lif da o gudd-wybodaeth. Roedd nifer yr adroddiadau cudd-wybodaeth (IT) ar uned y plant wedi dyblu ers yr arolygiad diwethaf i tua 80 y mis. Roedd ymosodiadau a bygythiadau yn parhau i fod y prif themâu heb fawr o gudd-wybodaeth ar gyffuriau. Parhaodd IR i gael eu dadansoddi'n gyflym ac fe gafodd camau gweithredu eu cynnal mewn modd amserol.

**1.52** Mynychwyd cyfarfodydd diogelwch yn dda, er bod yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys ychydig o wybodaeth am dueddiadau yn yr uned blant ac yn canolbwyntio'n bennaf ar y carchar i oedolion.

**1.53** Roedd y dull o leihau cyflenwad yn briodol. Yn ein harolwg, dywedodd 37% o blant ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon yn y Parc yn erbyn cymharydd o 19%. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn; ni fu unrhyw brofion cyffuriau gorfodol positif yn ystod y chwe mis, ac fe wnaeth y plant y gwnaethom eu cyfweld ddweud bod cyffuriau a sylweddau seicoweithredol newydd (NPS)[6] yn brin ar yr uned. Roedd tybaco ar gael yn rhwyddach, roedd llawer ohono yn dod i mewn trwy'r carchar i oedolion, er ei fod yn dal i fod yn bryder lefel isel. Roedd lleihau cyfleoedd i blant ddefnyddio ardaloedd i oedolion o'r safle wedi bod yn ymateb priodol.

**1.54** Roedd nifer y dyfarniadau wedi mwy na dyblu i gyfartaledd o 77 y mis yn ystod y chwe mis blaenorol, gan adlewyrchu lefelau uwch o drais dros y cyfnod hwn. Roedd cyfartaledd o 13 o adroddiadau mân y mis wedi cael eu defnyddio ar gyfer mân droseddau o'r rheolau.

---

[6] Cyffuriau newydd a ddatblygir neu a ddewisir i adlewyrchu effeithiau cyffuriau anghyfreithlon fel canabis, heroin neu amffetaminau a gallant gael effeithiau anrhagweladwy neu effeithiau sy'n bygwth bywyd.

**1.55** Roedd y dyfarniadau a mân adroddiadau a adolygwyd gennym yn dangos bod y system yn deg a gwrandawiadau yn cael eu rheoli'n dda. Hysbyswyd y bechgyn am eu dyfarniad neu fân adroddiad mewn da bryd cyn eu gwrandawiad ac roedd staff yn gwirio eu bod yn deall hynny. Cawsant gynnig cymorth eiriolwr ar gyfer eu dyfarniad ond anaml y manteisiwyd ar hyn. Roedd cofnodion o wrandawiadau a archwiliwyd gennym yn gyffredinol dda; roedd cosbau'n gyson a bechgyn yn gallu cyfleu eu fersiwn nhw o ddigwyddiadau. Yn dilyn dyfarniad euog a cholli breintiau, rhoddwyd cyfle arall i fechgyn ddangos ymddygiad da a allai arwain at ddiddymu rhan o'u cosb.

**1.56** Cyflwynwyd ystadegau misol ar nifer a natur y dyfarniadau a mân adroddiadaui'r pwyllgor diogelu. Cynhaliodd y dirprwy gyfarwyddwr wiriadau sicrwydd ansawdd ar gofnodion a bwydo pwyntiau dysgu yn ôl i reolwyr unigol.

# Lleihau bwlio a thrais

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae systemau gweithredol a theg i atal ac ymateb i ymddygiad bwlio yn hysbys i'r staff, plant a phobl ifanc ac ymwelwyr.**

**1.57** *Dywedodd bron i chwarter ybfechgyn eu bod wedi cael eu taro, eu cicio neu wedi dioddef ymosodiad. Roedd nifer yr ymosodiadau a gofnodwyd yn uchel, Roedd monitro trais yn dda yn galluogi staff i nodi'r rheswm dros y niferoedd uchel hyn. Roedd gweithdrefnau lleihau bwlio a thrais yn dda iawn. Roedd cyfryngu'n llwyddo i ddatrys sawl anghydfod.*

**1.58** Yn ein harolwg, dywedodd 24% o fechgyn eu bod wedi cael eu taro, eu cicio neu wedi dioddef ymosodiad gan fachgen arall yn y Parc, dywedodd 11% eu bod yn teimlo'n anniogel ar hyn o bryd a dywedodd 28% eu bod wedi teimlo'n anniogel yn y gorffennol. Yn ystod y chwe mis blaenorol, bu 79 o ymosodiadau ar fechgyn, yn fwy nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd rhai digwyddiadau yn ddifrifol, gan gynnwys bachgen yn torri ei ên ar ôl ymosodiad diachos. Cafodd y troseddwr ei arestio gan yr heddlu.

**1.59** Roedd monitro tueddiadau da wedi cael ei ddefnyddio i ddadansoddi'r niferoedd uchel hyn. Roedd staff wedi nodi'r effaith ansefydlogi ar yr uned gan ddau fachgen arbennig o anodd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2015. Roedd y bechgyn hyn wedi rhannu'r Sefydliad Troseddau Ieuenctid yn ddau grŵp o fechgyn oedd yn gwrthwynebu ei gilydd. Roedd llawer o'r trais arall wedi'i sbarduno drwy alw enwau, sarhau, dyled a gamblo.

**1.60** Roedd gweithdrefnau i reoli trais a bwlio yn dda iawn. Cafodd yr holl achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a bwlio eu hadrodd ar ffurflenni adrodd lleihau trais. Roedd ymchwiliadau yn brydlon, yn fanwl ac yn adeiladol. Cafodd tramgwyddwyr eu herio'n gadarn ac fe symudwyd ymlaen i ffurflenni 'gwahanu / monitro pobl ifanc' os oedd angen hynny. Roedd y monitro ffurfiol yn ymwneud â chynlluniau cymorth ac adolygiadau achos da iawn. Roedd ansawdd y ceisiadau arsylwadol yn dda iawn ac yn dangos her adeiladol. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd pum bachgen wedi cael eu monitro'n ffurfiol, yn fwy nag yn yr arolygiad blaenorol. Cynigiwyd cyfryngu'n rheolaidd i ddatrys anghydfodau rhwng bechgyn, a oedd yn aml yn llwyddiannus. Roedd bechgyn yn prynu trwy beiriannau sgrin gyffwrdd a roddodd fwy o gyfle i staff fonitro bwlio a dyled.

# Y defnydd o rym

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae grym yn cael ei ddefnyddio dim ond fel dewis olaf ac os caiff ei ddefnyddio, gwneir hynny'n gyfreithlon ac yn ddiogel gan staff hyfforddedig. Mae'r defnydd o rym yn cael ei leihau trwy strategaethau ataliol a dulliau amgen ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy drefniadau llywodraethu cadarn.**

**1.61** Mae'r defnydd o rym wedi treblu ers yr arolygiad diwethaf ac roedd yn uwch na sefydliadau tebyg. Nid oedd wyth deg y cant o ddigwyddiadau'n cynnwys rheolaeth ac ataliaeth, a gwelsom esiamplau llwyddiannus o ddad-ddwysáu. Roedd lleiafswm y ffilmiau a welsom yn dangos esiamplau gwael o gdad-ddwysáu. Roedd yn amhriodol i staff o'r carchar oedolion ymateb i ddigwyddiadau ar yr unedau plant. Roedd y trosolwg o ddefnyddio grym yn eithaf da.

**1.62** Defnyddiwyd grym ar 202 achlysur yn ystod y chwe mis blaenorol o'i gymharu â 67 cyn yr arolygiad blaenorol. Roedd bron i hanner y digwyddiadau hyn wedi digwydd ym mis Hydref 2015 ac roedd rhywfaint o dystiolaeth bod nifer y digwyddiadau yn dychwelyd i lefelau blaenorol. Bu oedi o ran cyflwyno'r system atal newydd a pharhaodd y Parc i ddefnyddio'r system rheoli ac atal (C and R), a oedd yn cynnwys cloeon cydymffurfio â phoen. Fe wnaethom ganfod enghraifft o noeth-chwilio dan ataliaeth hefyd, a oedd yn amhriodol.

**1.63** Roedd tua 80% o'r digwyddiadau yn lefel isel ac nid oedd angen C and R. Roedd bron pob digwyddiad yn ddigymell a defnyddiwyd grym yn bennaf mewn ymateb i ddigwyddiadau treisgar. Roedd y ddogfennaeth a ffilm a adolygwyd gennym ar gyfer ymyriadau digymell ac a gynlluniwyd yn gyffredinol o ansawdd da ac yn dangos enghreifftiau da o ddad-ddwysáu. Roedd staff o'r carchar oedolion yn dal i gael eu defnyddio i ymateb i bob digwyddiad ar uned y plant. Nid oedd llawer ohonynt yn adnabod y plant a oedd yn atal eu gallu i ddad-ddwysáu digwyddiadau. Gwelsom un enghraifft wael o ddad-ddwysáu yn y ffilm yr adolygwyd gennym.

**1.64** Roedd goruchwylio'r defnydd o rym yn dda. Roedd uwch reolwr, fel arfer y pennaeth pobl ifanc, yn adolygu ffilm TCC o'r digwyddiadau mwyaf digymell. Cafodd plant esboniad yn syth ar ôl y digwyddiad gan reolwr gweithredol a diwrnod yn ddiweddarach gan uwch reolwr yr uned a oedd wedi adolygu'r ddogfennaeth. Roedd yr uned wedi nodi enghraifft o arfer annerbyniol ac wedi cymryd camau priodol (gweler yr adran ar amddiffyn plant). Fodd bynnag, mewn cyfweliadau, dywedodd rhai bechgyn wrthym eu bod wedi cael eu brifo yn ystod ataliaeth mewn ardaloedd heb eu cynnwys yn y TCC, gan gynnwys celloedd. Roedd camerâu i'w gwisgo ar y corff wedi'u cyflwyno'n ddiweddar i reolwyr, ond nid oedd digon i gael lluniau, gan gynnwys sain, o bob digwyddiad.

**1.65** Cafodd cwynion am y defnydd o rym eu hatgyfeirio'n briodol ar gyfer goruchwyliaeth allanol. Cafodd adroddiad cynhwysfawr ar y defnydd o rym ei gasglu a'i gyflwyno i'r cyfarfodydd diogelu misol.

**1.66** Nid oedd unrhyw lety heb ddodrefn ar uned y plant. Roedd staff weithiau'n diffodd amwynderau, gan gynnwys dŵr. Er bod hyn yn ymddangos yn briodol yn yr achosion yr edrychom arnynt, nid oedd wedi cael ei gofnodi fel defnydd o lety arbennig.

## Argymhellion

**1.67** **Ni ddylid noeth chwilio dan ataliaeth ac ni ddylid defnyddio technegau ysgogi poen ar blant.**

**1.68** **Dylai'r holl ddigwyddiadau lle defnyddir grym gael eu cofnodi, gan gynnwys defnyddio sain, ac, unwaith y bydd mesurau diogelu a gweithdrefnau priodol wedi cael eu rhoi ar waith, dylai camerâu i'w gwisgo ar y corff gael eu defnyddio i gyflawni hyn.**

**1.69** **Ni ddylai staff o'r carchar oedolion gael eu defnyddio fel mater o arfer i ymateb i bob digwyddiad ar uned y plant.**

## Gwahanu / symud o leoliad normal

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Bydd plant a phobl ifanc ddim ond yn cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion gyda'r awdurdod priodol, yn ddiogel, yn unol â'u hanghenion unigol, am resymau priodol ac nid fel cosb.**

**1.70** *Roedd gwahanu plant yn parhau i fod yn glodwiw o isel. Defnyddiwyd gwahaniad sengl am gyfnodau byr o amser mewn lleoliad normal yn fwy aml. Cafodd bechgyn a gafodd eu gwahanu eu hadolygu'n rheolaidd a chael cefnogaeth i'w helpu i ail-integreiddio. Roedd yr holl blant a wahanwyd gyda mynediad at raglen gweithgareddau lawn, ymarfer corf a chawod bob dydd. Roedd nifer y bechgyn a oedd yn ynysu eu hunain er eu diogelwch eu hunain yn isel.*

**1.71** Nid oedd uned wahanu ar gyfer plant ac fe weithiodd yr uned yn dda hebddi. Nid oedd y celloedd cymorth dwys yn yr uned gwarchodaeth fwy diogel i oedolion yn cael eu defnyddio mwyach ac roedd cynlluniau i greu dwy gell 'amser allan' ar asgell E. Ar adeg yr arolygiad, roedd rheolwyr yn defnyddio dwy gell ar asgell T i blant eithriadol o aflonyddgar. Roedd gwahanu wedi cael ei ddefnyddio ar 14 achlysur yn ystod y chwe mis blaenorol ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd bechgyn yn dychwelyd i'r unedau ar ôl un diwrnod.

**1.72** Yn y mwyafrif llethol o achosion, rheolwyd bechgyn drwy wahanu sengl mewn lleoliad normal. Roedd y defnydd o wahanu sengl wedi cynyddu i tua 30 o achosion y mis. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd gwahanu yn deillio o ddyfarniad neu fân adroddiad gan arwain at golli cysylltiad. Roedd bechgyn wedi'u gwahanu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn gallu mynychu addysg a gyda mynediad at ymarfer corff a chawod bob dydd.

**1.73** Parhaodd cynlluniau gofal unigol i gael eu defnyddio ar gyfer gwahanu plant. Er bod y targedau yn y cynlluniau hyn yn gyffredinol, fe wnaethant ddangos cyfranogiad ystod eang o weithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r amgylchiadau unigol ac yn cefnogi plant i wella eu hymddygiad.

**1.74** Roedd nifer y bechgyn a oedd yn ynysu eu hunain er eu diogelwch eu hunain yn isel. Dim ond un bachgen oedd yn hunan ynysu ar adeg yr arolygiad a gwelsom enghreifftiau o staff yn ailintegreiddio bechgyn yn llwyddiannus i mewn i addysg.

## Camddefnyddio Sylweddau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Caiff plant a phobl ifanc sydd â phroblemau cyffuriau a / neu alcohol eu hadnabod wrth gael eu derbyn ac maent yn derbyn triniaeth a chymorth effeithiol trwy gydol eu harhosiad yn y ddalfa.**

**1.75** *Roedd y gwaith o nodi anghenion clinigol yn fuan yn dda ac roedd darpariaeth glinigol yn rhesymol. Roedd gwasanaethau cefnogaeth seicogymdeithasol i blant yn dda ac wedi'u cefnogi gan waith integredig effeithiol rhwng gweithwyr y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc (YPSMS) a'r tîm uned ehangach, gan gynnwys gofal iechyd.*

**1.76** Cafodd yr holl blant eu sgrinio wrth gyrraedd ar gyfer y defnydd o gyffuriau ac alcohol a dilynwyd hyn gan CHAT (arf asesu iechyd cynhwysfawr) - asesiad camddefnyddio sylweddau. Roedd nyrs yr uned wedi cael ei hyfforddi i lefel 1 Coleg Brenhinol Meddygon Teulu ac fe'i cefnogwyd gan dîm camddefnyddio sylweddau clinigol ehangach y carchar. Ni fu unrhyw ddefnydd o wasanaethau clinigol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nid oedd unrhyw fechgyn ar amnewid opiadau ar adeg ein harolygiad.

**1.77** Cafodd anghenion cyffuriau ac alcohol ar unwaith eu hadnabod yn rhesymol. Roedd polisïau addas yn darparu cefnogaeth dadwenwyno a chlinigol parhaus gyda mewnbwn gan y meddyg teulu a'r prif dîm camddefnyddio sylweddau clinigol. Roedd yn anghyffredin i fechgyn gyrraedd gyda symptomau diddyfnu alcohol neu gyffuriau ac nid oedd unrhyw fachgen angen dadwenwyno yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd darpariaeth i leoli bechgyn mewn uned ar wahân (T6) yn y prif garchar gyda threfniadau ar gyfer monitro addas gan y staff gofal iechyd.

**1.78** Cafodd yr holl fechgyn eu gweld gan y gweithwyr YPSMS yn ystod eu cyfnod sefydlu a chafodd pob un asesiad unigol o'u hanghenion cyffuriau ac alcohol gyda chyswllt dilynol rheolaidd.

**1.79** Fe wnaeth y ddau weithiwr hefyd gludo baich achosion generig bach o fechgyn ar yr uned. Roeddent yn rhan annatod o'r tîm amlddisgyblaethol uned ac fe wnaethant fynychu’r holl gyfarfodydd uned amlddisgyblaethol allweddol.

**1.80** Roedd profion cyffuriau gorfodol yn briodol ac yn anrhagweladwy a bob amser yn cael eu gwneud ar wahân i oedolion. Cafodd profion amheuaeth eu cynnal yn brydlon ac roedd profion risg ond yn cael eu cynnal mewn perthynas ag ymweliadau caeedig. Cafwyd pedwar prawf positif (tair amheuaeth) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pob un ond un ar gyfer canabis. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ddefnydd NPS ar yr uned.

**1.81** Roedd tua 90% o waith yn cynnwys ymyriadau unigol seicogymdeithasol, gydag ychydig bach o waith grŵp. Roedd ystod addas o ymyriadau’n cwmpasu codi ymwybyddiaeth, strategaethau ymdopi a lleihau niwed, gan ganolbwyntio ar yr holl gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ond gyda sylw penodol i gyffuriau o ddewis ar gyfer y boblogaeth hon yn y gymuned, tybaco, canabis, alcohol a NPS.

**1.82** Roedd cofnodion seicogymdeithasol ar bapur yn glir ac yn drefnus ac yn adlewyrchu materion allweddol yn dda. Roedd lle am fanylion pellach ar y defnydd o alcohol a chyffuriau unigol ac i wella parhad gofal.

**1.83** Roedd gan y gweithwyr fynediad da at hyfforddiant cyffuriau ac alcohol arbenigol drwy asiantaethau cymunedol lleol.

## Argymhelliad

**1.84** **Dylai lleoliad bechgyn gydag anghenion diddyfnu alcohol a chyffuriau sicrhau eu bod yn cael eu monitro a’u cynorthwyo’n ddiogel.**

# Adran 2. Parch

## Unedau preswyl

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd diogel, glân a gweddus sydd mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer y glasoed.**

**2.1** *Cafodd yr unedau eu cynnal a'u cadw yn dda, er bod awyru yn y gell a sgriniau toiled yn parhau i fod yn anfoddhaol. Roedd sgriniau cawod yn cael eu gwella ac roedd mynediad at gawodydd yn dda. Roedd cyflwyno ffonau mewn cell a pheiriannau awtomataidd i'r bechgyn archebu bwyd a phrynu o'r ffreutur, archebu ymweliadau a gwneud rhai ceisiadau yn fentrau cadarnhaol.*

**2.2** Roedd bechgyn wedi'u lleoli ar ddwy adain, E ac G, gyda chelloedd sengl a dwbl ynddynt. Rhyngddynt roeddent yn cynnwys pum cell gyda TCC y gellid eu defnyddio ar gyfer arsylwi'r bechgyn yn rheolaidd pan fo angen.

**2.3** Cadwyd ardaloedd cymunedol yn lân a'u cynnal yn dda, er bod adain E yn aml yn arogli'n annymunol. Roedd gan reolwyr gynlluniau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys newid y lloriau. Roedd celloedd yn lân ond roedd ffenestri wedi'u crafu'n ddrwg ac yn fudr iawn rhwng yr unedau gwydr wedi'u selio. Roedd llawer wedi cael eu stwffio gyda phapur gan eu preswylwyr a oedd yn atal golau ac yn rhwystro fwy ar yr awyru a oedd yn aml yn wael. Ychydig iawn o graffiti oedd yno ac fe gafwyd gwared ar unrhyw graffiti a ganfuwyd.

**2.4** Roedd celloedd gyda chyfarpar eithaf da, er nid oedd gan bob cell gadeiriau. Roedd celloedd a ddangoswyd i ni fel bod yn barod ar gyfer newydd-ddyfodiaid gyda chlustogau wedi'u staenio a matresi budr. Roedd celloedd a rennir yn gyfyng gyda lle ar gyfer un gadair yn unig ac nid oedd y toiledau yn y gell gyda sgriniau digonol. Serch hynny, roedd celloedd a rennir yn boblogaidd gyda rhai bechgyn. Roedd bechgyn yn dal heb fynediad i gypyrddau dan glo.

**2.5** Roedd cyflwyno ffonau mewn cell yn gam cadarnhaol ac roedd gwybodaeth mewn celloedd am rifau rhad ac am ddim. Roedd gan bob adain ffonau cymunedol gyda lloches preifatrwydd ar gyfer bechgyn a oedd eisiau defnyddio ffôn tra roeddent allan o'u celloedd. Gallai bechgyn anfon dau lythyr yn rhad ac am ddim bob wythnos.

**2.6** Yn ein harolwg, dywedodd 57% o fechgyn bod eu cloch cell yn cael ymateb cyflym yn erbyn cymharydd o 27%. Nid oedd unrhyw fonitro canolog o amseroedd ymateb i gloch gell. Gwelsom ymatebion cyflym i glychau ac i fechgyn yn galw ar staff o'u celloedd.

**2.7** Roedd gan y ddwy adain fannau bwyta gyda byrddau a seddau ar gyfer yr holl fechgyn. Darparwyd byrddau a seddi newydd ar adain E ers yr arolygiad diwethaf.

**2.8** Yn ein harolwg, dywedodd ychydig o dan dri chwarter o'r bechgyn eu bod fel arfer yn mynd y tu allan bob dydd. Dywedodd bechgyn ar adain G eu bod yn mynd allan yn llai aml gan nad oedd eu hardal ymarfer corff gydag unrhyw amddiffyniad rhag y glaw ac roedd eu cyfle i fynd allan weithiau'n cael ei ganslo oherwydd y tywydd. Roedd siacedi glaw ysgafn ar gael. Roedd y grid dur uwchben yr iard ymarfer corff ar asgell G yn dal yno.

**2.9** Yn ein harolwg, dywedodd 97% o fechgyn eu bod yn gallu cael cawod bob dydd. Roedd y sgriniau cawodydd ar adain E wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol ac roedd cynlluniau datblygedig i wneud yr

un peth ar adain G, yn dilyn ymgynghori gyda bechgyn ynghylch y cydbwysedd rhwng gwedduster a'u teimladau o ddiogelwch wrth ddefnyddio'r cawodydd.

**2.10** Gallai bechgyn gyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r peiriannau CMS awtomataidd (system rheoli canolog) ar gyfer rhai prosesau, gan gynnwys archebu ymweliadau ac archebu bwyd a phrynu yn y ffreutur. Roedd ceisiadau eraill, er enghraifft mynediad at eu heiddo, yn cael eu gwneud ar bapur ac nid oedd olrhain y rhain yn ddigonol.

**2.11** Gallai pob bachgen wisgo eu dillad eu hunain ac roedd mynediad dyddiol at gyfleusterau golchi dillad. Roedd cyflenwadau o ddillad isaf a sanau newydd a dillad carchar ar gael i fechgyn oedd eu hangen. Cafodd gwelyau eu cyfnewid yn wythnosol a'u golchi oddi ar yr adain.

## Argymhellion

**2.12** **Dylai celloedd gael awyru effeithiol.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.13)

**2.13** **Dylai toiledau gael eu sgrinio yn llawn.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.16)

**2.14** **Dylai plant gael mynediad at gwpwrdd y gellir ei gloi.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.17)

# Y berthynas rhwng staff a phlant a phobl ifanc

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin gyda gofal a thegwch gan yr holl staff, ac mae disgwyl iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain, a'u hannog a'u galluogi i wneud hynny. Mae staff yn gosod ffiniau clir a theg. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r holl blant a phobl ifanc ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial.**

**2.15** *Roedd y berthynas rhwng staff a phlant yn fwy amrywiol na'r arolygiad diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r rhyngweithio y gwnaethom ei arsylwi yn gadarnhaol, ond roedd ambell i berthynas yn fwy oeraidd.*

**2.16** Roedd canfyddiadau plant o staff wedi dirywio ers yr arolygiad blaenorol. Yn ein harolwg, dywedodd dim ond 55% o blant fod y rhan fwyaf o staff yn eu trin â pharch ac roedd dros draean yn dweud na fyddent ag unrhyw un i droi atynt os oedd ganddynt broblem. Adroddodd pedwar deg dau y cant o'r plant erledigaeth gan staff o'i gymharu ag 20% yn yr arolygiad blaenorol, a dywedodd 18% eu bod wedi cael eu herlid ar ôl gwneud cwyn. Yn ein cyfweliadau, roedd plant yn fwy cadarnhaol, ond roedd llawer yn poeni am ffafriaeth staff. Er bod perthynas wedi dirywio, gwelsom eu bod yn parhau i fod yn weddol dda. Roedd y rhan fwyaf o ryngweithio a welsom yn gadarnhaol, ond roedd ambell i berthynas yn fwy oeraidd.

**2.17** Roedd byrddau lluniau ar y ddwy uned yn galluogi plant i adnabod staff. Nid oedd yr holl staff yn gwisgo bathodynnau enw. Gwelsom enghreifftiau o staff yn herio ymddygiad gwael yn briodol mewn addysg ac ar yr unedau preswyl.

**2.18** Roedd trefniadau ymgynghori yn ddigyfnewid ac roedd fforymau misol yn galluogi bechgyn i godi pryderon. Roedd y cynllun gweithiwr allweddol yn gweithio'n weddol dda ond roedd mewnbwn gweithiwr allweddol o ran hyfforddiant ac adolygiadau cynllun remand angen gwelliant.

### Argymhelliad

**2.19 Dylai rheolwyr ymchwilio a rhoi sylw i ganfyddiadau negyddol plant o staff.**

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae’r sefydliad yn dangos dull clir a chydlynol i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo canlyniadau teg a meithrin cysylltiadau da, ac yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn neu berson ifanc o dan anfantais annheg. Ategir hyn gan brosesau effeithiol i nodi a datrys unrhyw anghydraddoldeb. Mae anghenion amrywiol pob person ifanc yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw: mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gydraddoldeb hil, cenedligrwydd, crefydd, anabledd (gan gynnwys anableddau meddyliol, corfforol a dysgu ac anawsterau dysgu), rhyw, materion trawsrywiol a chyfeiriadedd rhywiol.**

**2.20** *Nid oedd rheolaeth strategol o waith cydraddoldeb yn effeithiol. Yn groes i garchar oedolion, roedd lawer llai o ymgysylltiad â grwpiau cymunedol i hyrwyddo amrywiaeth, Roedd rhywfaint o gefnogaeth un i un dda i blant o ran materion amrywiaeth ac roedd dosbarthiadau addysg yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda.*

### Rheolaeth strategol

**2.21** Roedd rheolaeth strategol o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn wan. Roedd y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cryno’n benodol i blant, ond nid oedd yn adlewyrchu'r arfer cyfredol.

**2.22** Roedd gwaith yn cael ei arwain gan reolwr yr uned a'r rheolwr cynhwysiant cymunedol ar gyfer plant. Roedd llywodraethu gweithredol o waith cydraddoldeb ar gyfer y carchar cyfan yn cael ei wneud yn y cyfarfod tîm gweithredu cynhwysiant cymunedol. Fodd bynnag, nid oedd rheolwr yr uned na’r arweinydd cydraddoldeb wedi mynychu'r chwe chyfarfod diwethaf ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr uned wedi cael ei thrafod. Nid oedd yr adroddiad ar gydraddoldeb a gyflwynwyd i'r tîm gweithredu cynhwysiant cymunedol yn cynnwys unrhyw ddata penodol ar yr uned.

**2.23** Nid oedd cynllun gweithredu plant pwrpasol. Roedd cynllunio ar gyfer y safle i oedolion a'r uned i fod i gael ei gwmpasu gan un cynllun, ond nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu penodol ar gyfer yr uned ac heb ei ddefnyddio ers mis Mehefin 2015. Nid oedd asesiadau effaith cydraddoldeb pwrpasol wedi cael eu cynnal ar gyfer yr uned yn ystod 2015 .

**2.24** Nid oedd y rheolwr cydraddoldeb yn ymwybodol o ddata o'r arf monitro cydraddoldeb ar gyfer yr uned a'r prif safle, a oedd yn dangos triniaeth anghyfartal o bobl ifanc 15 i 18 oed yn y broses ddyfarnu a’r cynllun cymhellion a breintiau a enillwyd. Roedd data cyfyngedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod diogelu'r uned ar gefndir ethnig y plant ac ar y defnydd o wahanu, defnyddio grym a hunan-niwed yn ôl ethnigrwydd. Nid oedd unrhyw ddata monitro ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill.

**2.25** Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 28 o ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRFs) wedi'u cyflwyno, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â defnydd y plant o iaith hiliol. Cafodd ymchwiliadau eu cynnal a chymerwyd camau priodol pan ganfuwyd bod gwahaniaethu wedi digwydd, gan gynnwys ymyriadau da un-i-un. Cafodd DIRFs sicrwydd ansawdd gan y cyfarwyddwr ac roedd asiantaeth gymunedol yn gwirio sampl o DIRFs a gwblhawyd ddwywaith y flwyddyn.

**2.26** Nid oedd cynrychiolwyr cydraddoldeb plant mwyach. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd dau o grwpiau ffocws plant cynhwysiant cymunedol wedi’u cynnal, ond ni fu fawr o drafodaeth ar faterion cydraddoldeb. Roedd trydydd cyfarfod yn hydref 2015 wedi cael ei ganslo oherwydd y lefelau trais

(gweler yr adran ar fwlio a lleihau trais) ac fe siaradwyd yn unigol ag wyth o blant. Ychydig o gamau sylweddol a gafodd eu cofnodi yn y nodyn byr o'r trafodaethau hyn.

**2.27** Roedd llawer llai o ymgysylltu â grwpiau cymunedol nag ar y safle oedolion. Roedd dosbarthiadau yn yr adran addysg, a oedd yn aml yn gysylltiedig â digwyddiadau amrywiaeth megis Diwrnod Cofio'r Holocost, yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda iawn ac roeddent yn drawiadol (gweler yr adran ar reoli addysg, dysgu a sgiliau).

## Argymhellion

**2.28** **Dylai cyfarfod rheoli cydraddoldeb ddigwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod polisi, cynllunio ac ymgynghori'n effeithiol, bod canfyddiadau carcharorion a'u hanghenion yn cael sylw, a data monitro cynhwysfawr yn cael eu hystyried.**

**2.29** **Dylid gwella ymgysylltu gan yr uned blant gyda grwpiau amrywiaeth cymunedol, i'r lefel a gyflawnwyd gan y carchar i oedolion.**

## Anghenion amrywiol

**2.30** Roedd chwech o blant du a lleiafrifoedd ethnig adeg yr arolygiad. Dywedasant wrthym nad oedd llawer o hiliaeth ac nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol gan y staff ar sail eu hil. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o DIRFs yn awgrymu rhywfaint o faterion lefel isel, parhaus. Nid oedd unrhyw fforwm penodedig ar gyfer plant du a lleiafrifoedd ethnig i drafod eu profiad gyda staff. Nid oedd yr uned yn ymwybodol o unrhyw blant o gefndir Sipsiwn, Romani neu Deithwyr.

**2.31** Roedd un carcharor Mwslimaidd ac er nad oedd yn dal yn ddelfrydol, roedd trefniadau ar gyfer addoli wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf (gweler yr adran ar ffydd a gweithgareddau crefyddol).

**2.32** Roedd yr uned yn dal ychydig o fechgyn a oedd yn wladolion tramor. Roedd aelod o staff o'r safle oedolion yn gyfrifol am blant a oedd yn wladolion tramor a oedd â mynediad at feddygfeydd y Swyddfa Gartref ar y safle oedolion.

**2.33** Roedd dau blentyn o Fietnam wedi'u dal ar remand yn ddiweddar am droseddau yn ymwneud â thyfu canabis. Dywedwyd wrthym fod gweithiwr tîm troseddau ieuenctid cymunedol y plant wedi gwneud atgyfeiriadau dan y mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol (NRM) gan eu bod yn ddioddefwyr posibl masnachu mewn pobl. Roedd yn destun cryn bryder bod y plant hyn wedi cael eu herlyn a'u cadw ar remand yn y cyfamser. Roedd ymwybyddiaeth wael ymhlith staff y ddalfa o'r NRM a dangosyddion masnachu mewn pobl.

**2.34** Gwnaed defnydd priodol o ddehonglwyr dros y ffôn ac wyneb yn wyneb pan oedd angen. Roedd rhywfaint o ddeunydd yn yr uned ar gyfer plant a oedd yn siarad Fietnameg, ond ychydig mewn ieithoedd eraill. Gallai plant a oedd yn wladolion tramor gael galwad ffôn rhyngwladol am ddim o 10 munud bob mis os nad oeddent wedi cael unrhyw ymweliadau teuluol. Roedd yr uned yn treialu'r defnydd o Skype a oedd yn adnodd da ar gyfer cefnogi plant a oedd yn wladolion tramor, er nad oedd yn cael ei ddefnyddio eto ar gyfer y diben hwn.

**2.35** Roedd gwaith da o ran adnabod plant ag anableddau. Ymddengys bod cynlluniau cymorth byw, a oedd wedi'u paratoi gan staff gofal iechyd i gynorthwyo staff gwarchodol i ddeall a diwallu angen, wedi dod i ben. Cawsom ein sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o anghenion drwy sesiynau briffio amlddisgyblaethol dyddiol a chyswllt eraill gyda staff gofal iechyd.

**2.36** Nid oedd cyfleusterau wedi'u haddasu ar gyfer plant ag anableddau corfforol, ond nid oedd unrhyw blant a oedd eu hangen adeg yr arolygiad.

**2.37** Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blentyn ar yr uned wedi nodi eu bod yn hoyw. Dywedodd staff wrthym mai agweddau homoffobig oedd y mater amrywiaeth mwyaf anodd ei wynebu, a byddai'r uned yn elwa o'r ystod o weithgareddau a drefnir yn y carchar i oedolion i herio agweddau o'r fath.

**2.38** Roedd polisi ar gyfer rheoli plant trawsrywiol. Nid oedd yr uned hyd yma wedi dal plentyn trawsrywiol.

### Argymhelliad

**2.39** **Dylai'r holl staff gael eu hyfforddi i adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl a'r mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol.**

## Ffydd a gweithgaredd crefyddol

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu ymarfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y sefydliad ac yn cyfrannu at ofal, cymorth ac ailsefydlu cyffredinol pobl ifanc.**

**2.40** *Cafodd gwasanaethau'r gaplaniaeth eu trefnu'n dda ac roedd y tîm yn bresenoldeb gweithredol a gweladwy yn yr uned.*

**2.41** Yn ein harolwg, dim ond 43% o fechgyn ddywedodd bod eu credoau crefyddol yn cael eu parchu.

**2.42** Cynhaliwyd grwpiau addoli ac astudio Cristnogol aml-enwadol wythnosol. Roedd gwybodaeth am yr uned yn disgrifio gweithgareddau ffydd ac yn annog plant i ofyn am ymweliad gan gaplan o ffydd benodol.

**2.43** Roedd un carcharor Moslemaidd adeg yr arolygiad, a oedd yn bresennol mewn gweddïau dydd Gwener ar safle'r oedolion. Digwyddodd gweddïau gyda charcharorion sy'n oedolion yn yr ystafell aml-ffydd a gafodd eu cyfleu i'r bachgen dros intercom i'r capel. Nid oedd y trefniant hwn yn ddelfrydol, ond yn welliant ar yr arolygiad blaenorol pan oedd y bachgen wedi mynychu gweddïau yn yr ystafell aml-ffydd gyda charcharorion sy'n oedolion.

**2.44** Er gwaethaf ymdrechion gorau'r gaplaniaeth, nid oedd unrhyw gaplaniaid ar gyfer rhai grwpiau ffydd, gan gynnwys Bwdhyddion a Hindŵiaid. Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant o'r grwpiau ffydd hyn.

**2.45** Yn ein harolwg, dywedodd dim ond 29% o fechgyn bod ganddynt fynediad at gaplan neu arweinydd crefyddol pan wnaethant gyrraedd yr uned am y tro cyntaf, o'i gymharu â 54% yn yr arolygiad blaenorol a 56% ar y safle oedolion. Dangosodd cofnodion caplaniaeth da bod yr holl blant yn cael eu gweld o fewn 24 awr o gyrraedd, ond nid bob amser ar yr un diwrnod os oedd bechgyn yn cyrraedd yn y nos.

**2.46** Roedd gan y gaplaniaeth broffil uchel ar yr uned ac yn gwneud pwynt o siarad â phob plentyn bob dydd. Dywedodd dwy ran o dair o blant yn ein harolwg bod ganddynt fynediad preifat at arweinydd crefyddol o'u ffydd pe dymunent.

**2.47** Roedd y gaplaniaeth yn darparu gofal bugeiliol rhagorol ac wedi chwarae rhan sylweddol wrth hwyluso a chefnogi bechgyn a oedd yn symud i'r prif safle pan oeddent yn cyrraedd 18 oed.

# Cwynion

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Mae gweithdrefnau cwyno effeithiol yn bodoli ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n hawdd cael atynt ac yn hawdd eu defnyddio, ac sy'n rhoi ymatebion amserol. Mae plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cwyn. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel rhag ôl-effeithiau wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn ac maent yn ymwybodol o weithdrefn apelio.**

**2.48** *Dywedodd plant yn ein harolwg ei fod yn hawdd gwneud cwyn. Roedd ymatebion yn brydlon ac yn addas i oedran. Roedd gwaith ymchwilio ac arolygiaeth dda, gyda sylw penodol at risgiau diogelu.*

**2.49** Gallai bechgyn wneud cwyn drwy'r brif system carchardai ac roedd staff yn aml yn eu helpu i ysgrifennu eu cwynion. Roedd mynediad da at ffurflenni cwyno ar bob adain, gan gynnwys cwynion cyfrinachol. Roedd blychau cwynion yn weladwy ac roedd rheolwyr gweithredol yn gwagio'r blychau. Roedd staff yn ceisio cyfryngu a datrys cwynion yn anffurfiol lle bo'n bosibl.

**2.50** Cafwyd 88 o gwynion yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn debyg i sefydliadau ieuenctid eraill. Roedd 31 o gwynion am agweddau neu ymddygiad staff, dim ond un o'r rhain a gafodd ei gadarnhau.

**2.51** Roedd ymatebion yn cael eu cwblhau gan reolwyr gweithredol. Roeddent yn darparu esboniad addas ac yn gymesur, yn gwrtais ac yn briodol i oedran. Nodwyd nifer o ymatebion gennym a oedd yn cynnwys tystiolaeth o ymchwiliad pellach, yn cynnwys adolygiad o luniau TCC, i gadarnhau neu wrthbrofi'r gŵyn. Roedd bechgyn yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cael yr ymateb.

**2.52** Roedd ffurflenni apelio yn erbyn penderfyniadau cwyno ar gael ochr yn ochr â ffurflenni cwyno. Ni fu unrhyw apeliadau yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**2.53** Adolygodd y rheolwr uned pob cwyn ac ymateb ac roedd cwynion hefyd yn cael eu hadolygu drwy adroddiadau perfformiad yr uned. Roedd manylion di-enw, gan gynnwys canlyniad pob cwyn, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i gyfarfod diogelu'r uned bob mis, a'u cofnodi.

## Arfer da

**2.54** *Roedd cynnwys pob crynodeb o gwynion a chanlyniadau yng nghofnodion y cyfarfod diogelu misol yn cefnogi amgylchedd tryloyw a diogel i blant.*

# Hawliau cyfreithiol

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi gan staff y sefydliad i arfer eu hawliau cyfreithiol yn rhydd.**

**2.55** *Roedd plant yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol a gyda mynediad addas at ymgynghorwyr cyfreithiol. Roedd gwasanaeth da i fechgyn ar remand a rhoddwyd cymorth cyfreithiol i'r rhai hynny oedd wedi gwneud ceisiadau mechnïaeth.*

**2.56** Eglurwyd hawliau cyfreithiol i blant yn ystod y cyfnod sefydlu. Fe wnaeth gweithwyr achos hwyluso mynediad at ymgynghorwyr cyfreithiol â galwadau ffôn am ddim, ac roedd cyfleusterau preifat ar gyfer ymweliadau cyfreithiol. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu na fyddai rhai plant sy'n wladolion tramor yn

cael mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer eu hachosion mewnfudo (gweler yr adran ar anghenion amrywiol).

**2.57** Buom yn siarad â staff ac eiriolwyr Barnardo's nad oeddynt yn glir ar hawl plant i gael cymorth gan arian cyhoeddus ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn eu hachosion mewnfudo. Fodd bynnag, roeddem yn fodlon y byddai eiriolwyr yn ceisio cyngor priodol os gwrthodir cymorth cyfreithiol i blentyn, er enghraifft, o Ganolfan Gyfreithiol Plant Coram.

**2.58** Defnyddiwyd oedolion priodol pan ddigwyddodd cyfweliadau heddlu. Cafodd trefniadau ar gyfer rhyddhau bechgyn yn gynnar a hwyr ar orchymyn cadw a hyfforddi, eu hegluro gan weithwyr achos ar ddechrau'r ddedfryd.

**2.59** Cafodd bechgyn ar remand eu cefnogi'n dda gan weithiwr achos wrth wneud cais am fechnïaeth. Dywedwyd wrthym mai sicrhau llety priodol yn aml oedd yr agwedd fwyaf anodd wrth wneud cais am fechnïaeth. Dywedodd y staff am berthynas weithio dda gyda Barnardo's a gynorthwyodd gyda materion llety, a Chynghrair Howard er Diwygio Cosbau a gymerodd atgyfeiriadau o achosion anodd. Roedd gan y plant ar remand yr un mynediad at weithgareddau trefn â phlant wedi'u dedfrydu, ac roedd ganddynt gynlluniau rheoli remand llawn gydag adolygiadau rheolaidd. Roedd plant a ddedfrydwyd yn cael y cyfle i apelio ac roedd bechgyn oedd wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar yn cael mynediad at gyngor cyfreithiol addas.

# Gwasanaethau Iechyd

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc yn cael gofal gan wasanaeth iechyd sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd tra bônt yn y ddalfa, ac sy'n hyrwyddo parhad gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl eu rhyddhau. Mae safon y gwasanaeth iechyd yn gyfwerth â'r hyn y gallai plant a phobl ifanc ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.**

**2.60** *Roedd bechgyn gyda mynediad da at wasanaethau gofal sylfaenol, yn cynnwys nyrs uned ddynodedig a sesiynau Meddyg Teulu gwarchodedig. Roedd rhywfaint o asesiadau iechyd cynhwysfawr wedi'u hoedi. Roedd yr ystafelloedd clinigol ar y ddwy adain yn anaddas at ddefnydd clinigol. Roedd y mynediad at ddeintydd yn dda. Roedd gofal ar gyfer nifer fach o fechgyn gyda chyflyrau tymor hir yn rhesymol. Roedd hyrwyddo iechyd unigol yn dda gyda chwmpas ar gyfer hyrwyddo iechyd wedi'i dargedu ehangach. Roedd rhai bechgyn wedi profi oedi o ran cael eu meddyginiaethau. Roedd darpariaeth iechyd meddwl yn dda ond roedd diffyg siomedig o therapi iaith a lleferydd i gefnogi anawsterau cyfathrebu. Roedd trefniadau rhyddhau'n effeithiol.*

## Trefniadau llywodraethu

**2.61** Comisiynodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) G4S i ddarparu gwasanaethau iechyd i blant fel rhan o brif ddarpariaeth iechyd y carchar. Darparodd Bwrdd Iechyd Cwm Taf wasanaethau trin glasoed a phlant fforensig (FACTS). Roedd cyfarfod bwrdd partneriaeth chwarterol â chynrychiolaeth briodol gan y BCI, y darparwr iechyd a'r carchar. Roedd cyfarfodydd llywodraethu rheolaidd, integredig, â nifer dda, ar gyfer gwasanaethau iechyd yn mynd i'r afael â'r holl feysydd hanfodol.

**2.62** Roedd asesiad anghenion iechyd wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2014.

**2.63** Roedd nyrs uned ddynodedig â hyfforddiant iechyd meddwl yn seiliedig yn yr uned gyda chymorth gan y tîm nyrsio ehangach ar gyfer gweithgareddau penodol, ymateb brys a chyflenwi y tu allan i oriau. Yn

gyffredinol, roedd y model yn darparu parhad da a chefnogaeth i fechgyn a chyfraniad gofal iechyd gweithredol i adolygiadau unigol a chyfarfodydd uned amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd capasiti nyrsio yn annigonol i gyflawni'r holl weithgareddau clinigol yn gyson ochr yn ochr â gofynion cyfarfod uned, a nodasom rywfaint o oedi wrth gwblhau asesiadau iechyd cynhwysfawr (CHAT). Roedd cyfle am ddull mwy strategol ac ataliol i wella iechyd a chyfleoedd bywyd plant, ond nid oedd hyn yn cael ei wneud eto.

**2.64** Roedd yn hawdd adnabod staff gofal iechyd ac fe wnaethom arsylwi cwrteisi a gofal gan weithwyr iechyd proffesiynol tuag at fechgyn.

**2.65** Roedd cofnodion clinigol yn glir ac yn fanwl ac yn cael eu defnyddio gan yr holl weithwyr iechyd proffesiynol. Roedd mynediad diogel i gofnodion electronig ond nid oedd rhai cofnodion papur cleifion adnabyddadwy yn cael eu storio mewn cypyrddau dan glo mewn ystafell glinigol.

**2.66** Defnyddiwyd cynlluniau gofal i gefnogi anghenion iechyd penodol ar gyfer y nifer fach iawn o fechgyn gyda chyflyrau tymor hir, er fe wnaethom nodi pan gafodd un bachgen ei ryddhau o'r ysbyty, na ddefnyddiwyd cynllun gofal a byddai wedi bod yn ddefnyddiol (gweler yr adran ar gyflawni gofal - iechyd corfforol).

**2.67** Gallai bechgyn wneud cwynion iechyd cyfrinachol gan ddefnyddio amlenni wedi'u selio. Roedd dysgu o ddigwyddiadau andwyol, archwiliadau a chwynion yn llywio camau gwella gwasanaethau. Nid oedd unrhyw fforwm i fechgyn fynegi eu barn am wasanaethau iechyd.

**2.68** Gofynnwyd am ganiatâd i rannu gwybodaeth feddygol fel mater o drefn ac roedd staff yn sicrhau bod unigolion o dan 16 mlwydd oed yn gymwys i gydsynio.

**2.69** Roedd gan staff iechyd ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau diogelu ac fe wnaethom nodi atgyfeiriad a wnaed gan staff iechyd yn ystod ein harolygiad. Roedd staff nyrsio yn weladwy ac yn sylwgar yn ystod y defnydd o ataliaeth a gwelsom rai ymdrechion da gan y nyrs i gefnogi dad-ddwysau gyda bachgen.

**2.70** Roedd trefniadau ymateb brys yn rhan o'r ymateb iechyd ehangach ar gyfer y carchar; cafodd archwiliadau offer rheolaidd eu cryfhau yn ystod ein harolygiad. Roedd yr holl staff gweithredol wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac roedd y rhan fwyaf wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r diffibriliwr awtomataidd.

**2.71** Nid oedd y ddwy ystafell gofal iechyd yn yr adain yn cydymffurfio â gofynion rheoli haint ac yn anaddas ar gyfer gweithgareddau clinigol; nid oedd y naill ystafell na'r llall yn rhoi cyfle addas ar gyfer ymgynghori cyfrinachol. Roedd cynlluniau eraill yn cael eu datblygu.

**2.72** Roedd hybu iechyd yn unigol fwy neu lai ac wedi'u cynnal yn ystod ymgynghoriadau iechyd. Roedd gan nyrs yr uned gysylltiadau da gyda staff y gampfa. Cafodd imiwneiddio ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed a chlefydau plentyndod eu hyrwyddo'n dda a gofynnwyd am gofnodion imiwneiddio blaenorol gan feddygon teulu cymunedol. Roedd dau ar bymtheg o fechgyn wedi cael brechiad y frech goch, clwy'r pennau a rwbela yn y flwyddyn ddiwethaf.

**2.73** Roedd bechgyn yn gallu gofyn am gondomau.

## Argymhellion

**2.74** **Dylai pob ardal glinigol fod yn ddiogel a chydymffurfio'n llwyr â chanllawiau rheoli heintiau.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.64)

**2.75** **Dylai fod digon o gapasiti nyrsio i sicrhau y gall yr holl weithgareddau clinigol megis asesiadau CHAT gael eu cwblhau mewn modd amserol.**

## Pwyntiau cynnal a chadw

**2.76** Dylai'r holl gofnodion adnabyddadwy am gleifion gael eu storio mewn cwpwrdd dan glo.

**2.77** Dylai cynlluniau gofal gael eu defnyddio i sicrhau parhad gofal i fechgyn sydd ag anghenion penodol, gan gynnwys rhyddhau o'r ysbyty.

## Cyflwyno gofal (iechyd corfforol)

**2.78** Yn ein harolwg, dywedodd 74% o fechgyn bod ganddynt fynediad da at y meddyg, 85% at nyrs a 63% at y deintydd, yn erbyn cymaryddion priodol o 48%, 62% a 26%. Gwelsom fod gan fechgyn fynediad da at nyrs uned ddynodedig ac roedd apwyntiadau gwarchodedig dyddiol gyda'r meddyg teulu. Roedd rhywfaint o golli amser clinigol pan fyddai bechgyn weithiau'n gwrthod mynychu apwyntiadau er gwaethaf anogaeth gan nyrs yr uned, am fod yn well ganddynt fynd i weithgareddau eraill.

**2.79** Cafodd yr holl fechgyn eu hasesu gan nyrs ar gyfer anghenion uniongyrchol yn fuan ar ôl cyrraedd a'u cyfeirio'n briodol at y meddyg teulu a gwasanaethau eraill yn ôl yr angen. Gofynnwyd am gofnodion blaenorol meddygon teulu yn brydlon. Gwelsom un bachgen a gafodd ei sgrinio ar gyfer iechyd cychwynnol ac asesiad risg wrth gyrraedd yn cael eu cwblhau gan nyrs â gofal a sensitifrwydd; roedd wedi cyrraedd yn hwyr yn y nos ac wedi aros tua 40 munud i gael ei weld gan y nyrs am ei bod wedi cael ei dargyfeirio i faterion gweithredol eraill yn y prif garchar (gweler argymhelliad 2.75).

**2.80** Yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl cyrraedd, cafodd cyfres o asesiadau iechyd cynhwysfawr eu cwblhau ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a Niwroanabledd / anaf i'r ymennydd. Roedd rhai asesiadau wedi'u gohirio adeg ein harolygiad. Cafodd hyn ei liniaru'n rhannol gan fynediad dyddiol at nyrs yr uned a lefel uchel o wybodaeth fanwl ac wedi'i rhannu ymysg staff yr uned a oedd yn helpu i sicrhau bod anghenion iechyd ac anghenion ehangach ddim yn cael eu hanwybyddu.

**2.81** Yn ein harolwg, dywedodd llai o fechgyn bod gwasanaethau iechyd yn dda (50%) nag yn ein harolygiad diwethaf (80%). Yn gyffredinol fe wnaethom ganfod gwasanaeth o ansawdd da a oedd yn ymatebol, lle'r oedd bechgyn yn adnabod nyrs yr uned ac roedd y nyrs yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd allweddol a chyfran fawr o gyfarfodydd adolygu unigol.

**2.82** Cafodd y nifer fechan o fechgyn gyda chyflyrau tymor hir ofal gan y meddyg teulu a gallent gael mynediad at y nyrs arweiniol perthnasol yn y tîm iechyd ehangach. Roedd mynediad da at wasanaethau iechyd sylfaenol eraill, gan gynnwys optegydd, ffisiotherapydd, podiatregydd a gwasanaethau iechyd rhywiol.

**2.83** Roedd y prif wasanaeth meddygon teulu yn darparu cyflenwad y tu allan i oriau a daeth meddygon teulu i mewn i'r carchar os oedd angen.

**2.84** Roedd ymweliadau brys â'r ysbyty ac apwyntiadau ar gyfer bechgyn yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.

## Fferylliaeth

**2.85** Roedd rheoli meddyginiaethau yn rhesymol. Roedd rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn a'r mwyafrif o weinyddu'n cael eu gwneud yn electronig ar SystmOne (system gwybodaeth glinigol electronig). Nid oedd mynediad i SystmOne ar adain E ac roedd y nyrs yn defnyddio presgripsiynau wedi'u hargraffu i wirio yn erbyn pecynnau dognau Venalink wedi'u pacio ymlaen llaw. Rhoddwyd dognau'r bore am tua 8am a dognau'r nos am 6pm; roedd bechgyn ar ddognau mwy aml yn eu cael yn ôl y gofyn.

2.86 Nid oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu storio ar yr uned ac roedd parasetamol ac ibuprofen yn cael eu cludo i'r unedau heb gynhwysydd dan glo.

2.87 Roedd presgripsiwn yn addas i oedran a gyda lefelau isel addas. Cafodd presgripsiwn arbenigol ar gyfer problemau iechyd meddwl ac ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) ei gychwyn gan seiciatrydd CAMHS (gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed), gan weithio'n agos gydag ymarferwyr iechyd meddwl a meddygon teulu i sicrhau parhad a chysondeb. Gofynnwyd i'r holl blant arwyddo cytundeb wedi iddynt gyrraedd; roedd ystod gyfyngedig iawn o feddyginiaethau, elïau croenol gan fwyaf, ar gael i fechgyn eu cadw yn eu meddiant.

2.88 Cafodd meddyginiaethau yn y bore eu rhoi gan nyrs yr uned ac roedd tîm nyrsio'r carchar yn cyflenwi ar adegau eraill. Weithiau roedd y nyrs yn gorfod dilyn bechgyn i'w sesiynau addysg er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn eu meddyginiaeth. Dangosodd y cofnodion amrywiadau o hyd at ddwy awr yn amseriad meddyginiaethau gyda'r nos. Roedd un bachgen wedi colli dau ddogn o wrthfiotig yn y nos heb unrhyw reswm clir wedi'i gofnodi. Roedd bechgyn ar gyffuriau rheoledig yn cael eu cymryd i'r brif uned gofal iechyd i'w derbyn.

2.89 Roedd bechgyn a oedd yn ysmygu'n rheolaidd cyn iddynt gyrraedd yn gallu cael losin nicotin ar bresgripsiwn, ond roedd y rhain yn amhoblogaidd. Bellach roedd cyfarwyddyd grŵp cleifion (PGD)[7] ar gyfer therapi disodli ysmygu a oedd yn cynnwys clytiau nicotin, ond nid oedd wedi cael ei defnyddio eto.

## Argymhelliad

**2.90 Dylai pobl ifanc gael eu meddyginiaethau mewn modd amserol i sicrhau effeithiolrwydd clinigol.**

## Pwynt cynnal a chadw

2.91 Dylai meddyginiaethau stoc fel parasetamol ac ibuprofen gael eu cludo mewn cynhwysydd dan glo.

## Deintyddiaeth

2.92 Roedd gan bobl ifanc fynediad da iawn at apwyntiadau deintyddol wedi'u diogelu, gyda ffocws priodol ar iechyd y geg ac iechyd deintyddol.

2.93 Adeg ein harolygiad, gallai bechgyn weld deintydd o fewn wythnos am apwyntiad arferol, a'u blaenoriaethu'n gyflymach ar gyfer anghenion brys.

## Cyflwyno gofal (iechyd meddwl)

2.94 Roedd nyrs yr uned yn nyrs iechyd meddwl gofrestredig a oedd yn galluogi nodi gofal yn gynnar a pharhad o ofal i fechgyn ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Cafodd CHAT's iechyd meddwl eu cwblhau'n brydlon.

2.95 Roedd y gwasanaeth FACTS yn darparu gwasanaeth cymorth ymatebol ac effeithiol. Roedd uwch nyrs CAMHS yn ymweld bob wythnos ac roedd ymweliadau rheolaidd gan seiciatrydd CAMHS: roedd yr ymarferwyr hyn yn ymateb i angen brys. Yn ystod ein harolygiad, cafodd un bachgen ag anghenion iechyd meddwl posibl ei weld o fewn 24 awr i'r cais. Roedd y gwasanaeth FACTS wedi gweld 87 o fechgyn yn ystod y flwyddyn flaenorol.

---

[7] awdurdodi gweithwyr proffesiynol gofal iechyd addas i gyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau gyda phresgripsiwn yn unig

**2.96** Roedd gan lawer o fechgyn lefelau isel o addysg ac yn cael anawsterau mynegi eu pryderon a'u problemau'n glir; roedd hyn yn aml yn cael ei nodweddu gan ffrwydradau blin neu ynysu eu hunain. Roedd diffyg therapi lleferydd ac iaith i gefnogi bechgyn gyda sgiliau cyfathrebu ac iaith wael yn parhau i fod yn fwlch siomedig mewn gwasanaethau oedd fel arall yn dda.

**2.97** Nid oedd unrhyw lwybr gweithredol neu bolisi a oedd yn disgrifio'r llwybr atgyfeirio a'r meini prawf i'r gwasanaeth FACTS, er mwyn sicrhau dull cyson, hyblyg i blant.

**2.98** Bu un asesiad a dim trosglwyddiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; tybir nad oedd y bachgen angen mynd i'r ysbyty yn dilyn asesiad.

## Argymhellion

**2.99** **Dylai plant gael mynediad amserol i therapi lleferydd ac iaith fel y nodwyd yn glinigol.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.93)

**2.100** **Dylid cytuno ar bolisïau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 2.94)

# Arlwyo

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Mae plant a phobl ifanc yn cael cynnig prydau bwyd amrywiol i fodloni eu gofynion unigol ac mae bwyd yn cael ei baratoi a'i weini yn unol ag arferion crefyddol a diwylliannol a rheoliadau diogelwch a hylendid bwyd.**

**2.101** *Roedd llawer o blant yn parhau i fod yn anhapus â'r bwyd. Fodd bynnag, roedd y prydau y gwnaethom eu blasu o ansawdd rhesymol ac roedd yr amrywiaeth yn ddigonol i ddiwallu anghenion amrywiol y plant.*

**2.102** Roedd maint dognau yn ddigonol, yn enwedig pan oedd ail blatiad ar gael. Fodd bynnag, dywedodd llawer o blant y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn hoffi dogn fwy a dim ond 18% yn ein harolwg a ddywedodd fod y bwyd yn dda.

**2.103** Roedd ciniawau'n cynnwys dewis o baguette, tortillas wedi'u lapio neu gawl. Roedd swper yn cynnig pum prif ddewis o brydau bwyd, gan gynnwys opsiynau fegan a halal, ac roedd amrywiaeth o ffrwythau a llysiau ar gael.

**2.104** Parhaodd y pryd gyda'r nos i gael ei weini'n fuan, ond roedd nawr yn cael ei ategu gan fyrbryd gyda'r nos ar gyfer pob plentyn. Roedd yr holl brydau bwyd yn cael eu bwyta'n gymunedol mewn awyrgylch tawel, gan roi cyfle cadarnhaol i gymdeithasu.

**2.105** Unwaith yr wythnos roedd y plant a oedd yn mynychu'r llwybr arlwyo'n paratoi cinio poeth ar gyfer y ddwy uned ac roedd y plant eraill yn mwynhau hyn yn fawr. Ar y dyddiau hyn, roedd baguette yn cael ei weini gyda'r nos.

**2.106** Cafodd pecynnau brecwast yn cynnwys grawn eu dosbarthu yn y bore ac, er ei fod yn dod gyda dwy dafell o dost a baratowyd ar yr uned, roedd yn ansylweddol. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd y pryd nos blaenorol wedi cynnwys baguette.

**2.107** Roedd y terfynellau CMS newydd yn darparu system llawer gwell i blant edrych ar fwydlenni a dewis eu bwyd. Roedd eiconau a ychwanegwyd at y rhestr o brydau yn helpu'r plant i adnabod y prif gynhwysion, alergenau bwyd, opsiynau bwyta'n iach a chydymffurfiaeth â gofynion crefyddol yn hawdd.

**2.108** Parhaodd bwyd i gyrraedd yr uned tua hanner awr cyn iddo gael ei weini ond cafodd ei gadw'n ddigon cynnes yn ystod y cyfnod hwnnw.

**2.109** Roedd yr holl gyfleusterau storio yn ddigonol ac yn hylan ac roedd y gegin wedi'i threfnu'n dda gyda bwyd Halal, fegan a Kosher yn cael eu storio ar wahân.

**2.110** Roedd pawb a weithiodd yn y gegin ac ar y man gweini'n gwisgo dillad priodol.

**2.111** Roedd y rheolwyr yn gwirio'r llyfr sylwadau bwyd a gynhaliwyd ar bob uned. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion yn cwyno ynghylch maint y dognau.

# Pryniannau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Gall plant a phobl ifanc brynu amrywiaeth addas o nwyddau am brisiau rhesymol i ddiwallu eu hanghenion amrywiol, ac gallant wneud hynny'n ddiogel.**

**2.112** *Roedd amrywiaeth eithaf eang o gynhyrchion ar gael i blant brynu ar gost gymharol.*

**2.113** Roedd y rhestr lawn o gynhyrchion a chatalogau ar gael i blant yn cael eu cynnal ar y peiriannau electronig CMS. Roedd hyn yn eu galluogi i sganio pob eitem yn rhwydd ac i archebu ac olrhain cynnyrch. Gallent hefyd gael gafael ar wybodaeth lawn am eu henillion, beth roeddent wedi'i wario a'r hyn a oedd yn weill ganddynt. Roedd costau cynnyrch yn debyg i siopau'r stryd fawr.

**2.114** Roedd nwyddau'n cyrraedd yr uned bob dydd Iau ac roedd angen gwneud archebion y dydd Sul blaenorol.

**2.115** Roedd plant a oedd yn cyrraedd y Parc yn cael pecyn sefydlu ac yn gallu cael mynediad i'r system electronig yn fuan ar ôl cyrraedd, i brynu ac archebu eu dewis o brydau o'r fwydlen.

**2.116** Cynhaliwyd cyfarfodydd fforwm cymunedol yn rheolaidd lle'r oedd plant yn gallu gofyn am eitemau ychwanegol i'w rhoi ar y rhestr ffreutur.

# Adran 3. Gweithgaredd pwrpasol

## Amser allan o'r gell

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant a phobl ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser y tu allan i'w celloedd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, saith niwrnod yr wythnos.**[8]

**3.1** *Roedd bechgyn yn cael digon o amser heb fod dan glo bob dydd, ar wahân i'r ychydig rai nad oedd eisiau gadael eu celloedd. Roedd mynediad i ardaloedd awyr agored yn parhau i fod yn eithaf cyfyngedig.*

**3.2** Gallai bechgyn dreulio digon o amser allan o'u celloedd bob dydd. Gallai'r rhai ar lefel uchaf y cynllun gwobrau a chosbau gael 11 awr wedi'u datgloi yn ystod yr wythnos tra gallai'r rhai ar y lefel isaf gael bron i wyth awr wedi'u datgloi ar benwythnosau. Roedd rhywfaint o gymdeithasu gyda'r nos yn ystod yr wythnos ar gael i'r holl fechgyn (oni bai iddo gael ei ddileu fel cosb). Roedd bechgyn a gafodd eu gwahanu ar yr uned yn cael mynediad i gyfundrefn weithgareddau lawn. Nid oedd llawer o dystiolaeth o ddatgloi'n hwyr neu lithriad cyfundrefn arall.

**3.3** Weithiau roedd ychydig o fechgyn yn gwrthod gadael eu celloedd a chymryd rhan yn y gyfundrefn, yn bennaf oherwydd bod ganddynt bryderon am eu diogelwch wrth gymysgu gyda bechgyn eraill. Yn ystod ein gwiriadau cofrestr, canfuom tri bachgen o'r fath. Roedd amser allan o'r gell ar eu cyfer yn rhy isel am awr neu ddwy bob dydd. Gwnaeth y staff ymdrechion da i ddatrys materion a phryderon ar gyfer y bechgyn hyn ac roedd tystiolaeth eu bod wedi helpu bechgyn i lwyddo i ailgysylltu'n raddol gyda'r drefn. Yn ystod yr arolygiad, fe wnaeth un o'r tri bachgen na fyddent yn gadael eu cell ddechrau mynychu addysg bob dydd, ac fe gafodd un arall ei ryddhau ar ôl cwblhau ei ddedfryd.

**3.4** Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn gadarnhaol am eu mynediad at gymdeithasu bob dydd. Roedd yr ystod o weithgareddau yn cynnwys sesiynau campfa, tenis bwrdd, gemau bwrdd a rhai gemau play station. Gallai'r bechgyn ar y lefel uchaf o'r cynllun gwobrau a chosbau ddefnyddio ystafell gymdeithasu ychwanegol, gyda rhai gweithgareddau ychwanegol. Roedd nifer o gyfnodau y tu allan yn cael eu hadeiladu i'r diwrnod craidd. Roedd y rhain yn digwydd yn rheolaidd yn ystod yr arolygiad ond roedd bechgyn wedi'u cyfyngu i ddwy ardal ymarfer corff fach. Roedd hyn yn galluogi bechgyn i gael awyr iach, ond roeddent yn sefyll ac yn sgwrsio mewn grwpiau er gwaethaf argaeledd yr offer ymarfer corff.

### Argymhelliad

**3.5** **Dylai plant gael gwell mynediad at gyfleusterau awyr agored.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 3.5)

## Addysg, dysgu a sgiliau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn addysg, dysgu a sgiliau, sy'n eu galluogi i ennill hyder a phrofi llwyddiant. Mae disgwyliadau plant a phobl ifanc yn uchel. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud cynnydd yn eu dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol, er**

---

[8] Mae amser allan o'r gell, yn ychwanegol at y 'gweithgaredd i bwrpas' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw amser y mae plant a phobl ifanc allan o'u celloedd i gymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol, i gymryd cawod neu i wneud galwadau ffôn.

**mwyn cynyddu eu cyflogadwyedd a'u helpu i fod yn ddysgwyr llwyddiannus wrth iddynt ddychwelyd i'r gymuned ehangach. Mae addysg, dysgu a sgiliau o ansawdd uchel, yn darparu digon o her i blant a phobl ifanc ac yn eu galluogi i ennill cymwysterau ystyrlon.**

**3.6** *Roedd rheolaeth strategol addysg, dysgu a sgiliau yn ddigonol. Roedd rheolwyr yn coladu data'n dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i gymharu eu canlyniadau â darparwyr lleol eraill. Roedd y cwricwlwm craidd yn eang a chytbwys. Roedd y cwricwlwm galwedigaethol yn ddigonol ond roedd gan fechgyn llai o ddewisiadau nag yr oeddem wedi dod o hyd iddynt yn flaenorol. Roedd gan y staff addysgu berthynas broffesiynol effeithiol iawn gyda'r bechgyn ac roedd ymddygiad yn dda iawn. Roedd bechgyn yn ymgysylltu'n dda gyda'u dysgu. Roedd lefelau cyrhaeddiad yn dda ac roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn gwneud cynnydd mewn gwersi. Dim ond digonol oedd y cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Roedd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer profiad gwaith. Roedd bechgyn yn gwneud defnydd da o'r llyfrgell.*

**3.7** *Gwnaeth Estyn[9] yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth dysgu a sgiliau a gwaith:*

*Effeithiolrwydd cyffredinol dysgu a sgiliau a gwaith:* *Digonol*

*Canlyniadau plant a phobl ifanc wedi'u hymgysylltu â gweithgareddau dysgu a sgiliau a gwaith:* *Digonol*

*Ansawdd gweithgareddau dysgu a sgiliau a gwaith, yn cynnwys addysgu, hyfforddi a dysgu ac asesiad:* *Digonol*

*Effeithiolrwydd arwain a rheoli gweithgareddau dysgu a sgiliau a gwaith:* *Digonol*

## Rheoli addysg a dysgu a sgiliau

**3.8** Roedd tîm rheoli adran addysg yr uned wedi newid ers yr arolygiad blaenorol, ac roedd llawer o'r deiliaid swyddi yn newydd i'r rôl neu'n cyflenwi staff a oedd yn absennol. Roedd gan y tîm gynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer gwelliannau i wella gwaith yr adran. Roedd yn rhy gynnar i weld canlyniadau'r mentrau hyn.

**3.9** Roedd systemau i gasglu a dadansoddi data wedi'u hen sefydlu ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan uwch reolwyr i arfarnu gwaith yr adran. Roedd rheolwyr wedi datblygu meincnodau data defnyddiol trwy ddefnyddio data canlyniadau dysgwyr o dri choleg addysg bellach lleol. Roedd hyn yn rhoi cymhariaeth mesuradwy perthnasol iddynt asesu eu perfformiad eu hunain.

**3.10** Roedd rheolwyr yn defnyddio'r dadansoddiad data yn dda mewn hunanasesu. Roedd yr adroddiad hunanasesu yn ddogfen llawn gwybodaeth oedd yn tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol ac yn nodi meysydd a nodwyd yn glir ar gyfer datblygiad.

**3.11** Roedd sicrhau ansawdd gwaith cymhwyster plant yn gadarn a systemau dilysu mewnol yn ddibynadwy. Fodd bynnag, nid oedd arweinwyr a rheolwyr yn gwirio ansawdd cofnodion athrawon fel mater o drefn o'r cynnydd a wnaed gan y bechgyn, neu'n gwerthuso cysondeb marcio ac asesu eu gwaith.

---

[9] Mae arolygiad darpariaeth addysg a safonau addysgol, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc, yn cael ei wneud gan Estyn, swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, gan weithio o dan gyfarwyddyd cyffredinol Arolygiaeth Carchardai EM. Mae Estyn yn annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**3.12** Roedd ystod eang o bartneriaethau'n gwella cyngor ac arweiniad i'r plant. Roedd athrawon yn defnyddio'u partneriaethau gyda chlybiau megis Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a chlwb rygbi Saracens i ddarparu cymhelliant ychwanegol.

**3.13** Roedd staff yn bresennol fel mater o drefn mewn cyfarfodydd boreol i drafod materion a oedd wedi digwydd dros nos ac i gynllunio ar gyfer y bechgyn y diwrnod hwnnw. Fodd bynnag, roedd cyfarfodydd staff ffurfiol rheolaidd i ganolbwyntio ar ganlyniadau a chyflawniadau'r bechgyn yn annatblygedig. Roedd hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ganolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

**3.14** Roedd staff yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda drwy raglen ddinasyddiaeth llawn gwybodaeth a oedd yn cynnwys addysg bersonol a chymdeithasol briodol.

**3.15** Yn gyffredinol, roedd bechgyn yn teimlo'n ddiogel mewn addysg.

## Argymhelliad

**3.16** **Dylai fod goruchwyliaeth effeithiol a sicrhau ansawdd o'r ddarpariaeth addysg.**

## Darpariaeth o weithgareddau

**3.17** Roedd plant yn cael eu dyrannu i ddosbarthiadau'n brydlon ar ôl eu cyfnod sefydlu. Cafodd eu hanghenion eu hadnabod yn dda trwy gynlluniau addysg unigol manwl (IEP) a oedd yn adlewyrchu eu dysgu blaenorol a'u dyheadau yn y dyfodol.

**3.18** Roedd gan fechgyn ddewis o lwybrau dysgu a oedd yn cynnwys pynciau galwedigaethol ac academaidd. Roedd y rhan fwyaf yn gallu bod ar eu llwybr o'u dewis. Fodd bynnag, nid oedd cynllunio rhaglenni'r llwybr yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Roedd anghyfartaledd yn nifer y gwersi rhwng y llwybrau, gorgyffwrdd â phynciau craidd a rhai enghreifftiau o fechgyn yn ailadrodd llwybrau heb wneud cynnydd.

**3.19** Fe wnaeth yr adran gynnal asesiadau cychwynnol priodol o sgiliau llythrennedd a rhifedd bechgyn. Roedd yr athrawon yn dilyn hyn gydag asesiad diagnostig llawn gwybodaeth ar-lein. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r rhain yn cael eu defnyddio yn ddigon da i lywio targedau smart byr ar gyfer dysgu ac nid oedd unrhyw gynllunio i sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu datblygu yn yr holl wersi ar draws y cwricwlwm.

**3.20** Roedd bechgyn yn cael mynediad at gwricwlwm craidd addas o lythrennedd, rhifedd, y celfyddydau creadigol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), dinasyddiaeth, coginio ac addysg gorfforol (AG). Roedd ganddynt yr opsiwn o ddewis o blith amrywiaeth ddigonol, ond nid helaeth, o lwybrau dysgu i ddatblygu eu sgiliau galwedigaethol ac yn y gwaith. Roedd bechgyn a oedd wedi bod yn dilyn cwrs TGAU yn flaenorol yn gallu parhau â'r cymwysterau hyn.

**3.21** Roedd y rhan fwyaf o fechgyn yn gwella eu hunan-barch ac wedi ennill hunanhyder drwy eu dysgu. Fe wnaethant ddatblygu ymdeimlad cadarn o gred yn eu gallu eu hunain i gyflawni a sefydlu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac addysg.

**3.22** Roedd ymddygiad mewn addysg yn gyffredinol dda. Roedd yr ymddygiad gwael achlysurol iawn yn cael ei reoli'n gyflym ac yn effeithlon gan athrawon. Ychydig iawn o fechgyn oedd yn cael eu dychwelyd i'w huned breswyl. Ychydig iawn o waharddiadau o addysg a gafwyd.

## Argymhelliad

**3.23 Dylid adolygu cynllunio cwricwlaidd y llwybrau dysgu, i sicrhau bod pob llwybr yn cynnig nifer gyfartal o wersi i blant ac er mwyn atal dyblygu dysgu.**

## Ansawdd y ddarpariaeth

**3.24** Roedd bron pob un o'r athrawon a'r plant yn mwynhau perthynas waith gadarnhaol a chefnogol. Roedd presenoldeb yn dda a rheolwyr yn darparu gwaith i'w gwblhau yn yr uned breswyl ar gyfer yr ychydig iawn o fechgyn na fynychodd. Fodd bynnag, roedd ansawdd y gwaith hwn yn amrywio ac nid oedd bob amser yn ddigon heriol.

**3.25** Yn y mwyafrif o wersi, roedd athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o ddulliau addysgu. Fe wnaethant gynllunio gweithgareddau a oedd yn ennyn diddordeb plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid oedd athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i fechgyn gymhwyso eu gwybodaeth a datrys eu problemau ar eu pennau eu hunain. Yn y gwersi hyn, nid oedd y gweithgareddau dysgu'n herio bechgyn yn ddigon.

**3.26** Roedd IEP yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am arddulliau dysgu a ffafrir gan y dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu. Fodd bynnag, nid oedd yr IEP yn gosod strategaethau clir ar gyfer staff a disgyblion i gyflawni'r nodau dysgu. Yn gyffredinol, nid oedd athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da wrth gynllunio gwersi a gosod nodau dysgu.

**3.27** Roedd bron yr holl athrawon yn marcio gwaith y bechgyn yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau i'w hannog a'u gwobrwyo am eu hymdrech a chwblhau'r dasg. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o farcio'n dweud wrth y bechgyn beth oedd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

**3.28** Roedd prosesau da ar waith i gasglu barn plant fel rhan o'r broses hunan-arfarnu.

**3.29** Roedd ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cylchrediad wedi'u haddurno'n lliwgar gydag enghreifftiau o waith celf bechgyn, gwybodaeth werthfawr yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arddangosfeydd llawn gwybodaeth a oedd yn hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw iach.

**3.30** At ei gilydd, roedd adnoddau ar gyfer addysg o ansawdd da ac yn galluogi bechgyn i wneud cynnydd.

## Argymhelliad

**3.31 Dylai pob bachgen gael targedau llythrennedd a rhifedd unigol sy'n adlewyrchu'r meysydd i'w datblygu yn eu hasesiad diagnostig.**

## Llwyddiannau addysgol a galwedigaethol

**3.32** Roedd cyfraddau llwyddiant cyffredinol yr adran ar gyfer pynciau galwedigaethol, llythrennedd a rhifedd yng 2014-2015 tua 80%. Roedd cyfraddau cyrhaeddiad yn ddigonol ar tua 75% ac yn dangos bod data cyrhaeddiad â thuedd sy'n gwella dros y pedair blynedd diwethaf.

**3.33** Dangosodd data cyffredinol bod bechgyn yn llwyddo ar gyfraddau ychydig yn is na'u cymaryddion coleg lleol. Roedd cyflawniadau mewn adeiladu yn sylweddol uwch ac arlwyo, celf a'r gwyddorau cymdeithasol yn debyg. Roedd cyfraddau llwyddiant mewn llythrennedd a rhifedd yn llawer is.

**3.34** Roedd gan yr holl fechgyn fynediad cyfartal i'r cwricwlwm. Nid oedd unrhyw wahaniaeth canfyddadwy mewn cyrhaeddiad grwpiau penodol, gan gynnwys bechgyn ag anableddau ac anawsterau dysgu a rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

**3.35** Cyflawnodd y rhan fwyaf o fechgyn gymwysterau defnyddiol ar gyfer symud ymlaen i lefelau uwch o ddysgu, yn enwedig os oeddent yn trosglwyddo i'r carchar i oedolion. Roedd y rhan fwyaf yn cyflawni eu nodau dysgu mewn pynciau galwedigaethol ac roedd safon y gwaith a gynhyrchwyd mewn adeiladu, aml-sgiliau a'r celfyddydau creadigol yn dda iawn. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai ennill cymwysterau a oedd yn bodloni safonau'r diwydiant.

**3.36** Cyflawnodd y rhan fwyaf o fechgyn gymhwyster un lefel yn uwch na'u hasesiad cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, gwnaethant gynnydd cyfyngedig o ran gwella sgiliau a nodwyd yn eu hasesiadau diagnostig unigol.

**3.37** Gwnaeth plant gynnydd da iawn yn eu datblygiad personol a chymdeithasol drwy raglen ddinasyddiaeth addas ac wedi'i chynllunio'n dda, a oedd yn caniatáu amser iddynt archwilio eu meddyliau ac i herio eu credoau. Gwnaeth y rhan fwyaf o fechgyn ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol neu addysg bellach. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith yn gyfyngedig iawn.

**3.38** Roedd cofnodion yr Adran ar fechgyn unigol yn gyfoes. Cwblhaodd yr athrawon adolygiadau defnyddiol o bob dysgwr ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn a chofnodi’r rhain yn dda ar IEP unigol bechgyn.

## Llyfrgell

**3.39** Roedd y llyfrgell ar ei newydd wedd ac wedi’i hailgyflenwi’n darparu ystod dda o ffuglen a llyfrau ffeithiol yn addas i oedran. Roedd y rhain yn cynnwys stoc dda o lyfrau hawdd, llyfrau yn seiliedig ar ffilmiau a gemau poblogaidd a llyfrau cyfeirio defnyddiol sy'n gysylltiedig â llwybrau dysgu. Roedd llyfrau sain ar gael hefyd yn ogystal â llyfrau mewn ieithoedd eraill ar gyfer yr ychydig o fechgyn nad oedd â Saesneg fel iaith gyntaf. Roedd dewis da o lyfrau Cymraeg.

**3.40** Roedd gan fechgyn mynediad da at y llyfrgell a oedd yn cynnwys pedwar bore'r wythnos pan oedd staff y llyfrgell yn bresennol. Roedd athrawon hefyd yn annog bechgyn i dynnu llyfrau ac ymchwilio i bynciau ymchwil sy'n gysylltiedig â'u llwybrau dysgu.

**3.41** Cafodd yr holl fechgyn gyflwyniad i'r llyfrgell yn ystod y cyfnod sefydlu ac fe gafodd y llyfrgell ei hyrwyddo’n dda drwy arddangosfeydd gwybodaeth lliwgar a’r cynllun darllenydd preswyl.

**3.42** Roedd llawer o fechgyn yn defnyddio'r llyfrgell yn dda i ddewis llyfrau i'w darllen er mwyn pleser neu i gefnogi eu rhaglenni addysg. Roedd gwasanaeth cais effeithlon ar gyfer llyfrau o'r llyfrgell yn y carchar i oedolion ac roedd bechgyn yn gallu awgrymu teitlau newydd i’r llyfrgell.

**3.43** Roedd trefniadau i athrawon archebu adnoddau dysgu a llyfrau i gefnogi rhaglenni dysgu wedi'u datblygu'n dda. Roedd hyn yn galluogi bechgyn i ddatblygu eu dysgu y tu allan i'r gwersi.

**3.44** Fe wnaeth y rhan fwyaf o fechgyn ofalu’n dda am y llyfrau y gwnaethant eu benthyca, ac roedd nifer y llyfrau a gollwyd yn isel. Nid oedd y llyfrgell yn darparu mynediad i TGCh ac nid oedd bechgyn yn gallu datblygu eu sgiliau ymchwil ar-lein.

# Addysg gorfforol a byw yn iach

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae pob plentyn a pherson ifanc yn deall pwysigrwydd byw'n iach, ac yn cael eu hannog a'u galluogi i gymryd rhan a mwynhau addysg gorfforol mewn diogelwch, waeth beth yw eu gallu. Mae'r rhaglen o weithgareddau yn gynhwysol ac wedi'i chynllunio'n dda. Mae'n amrywiol ac yn cynnwys gweithgareddau dan do ac awyr agored.**

**3.45** *Roedd gan y bechgyn fynediad rheolaidd at ymarfer corff a oedd yn bodloni eu hanghenion unigol. Roedd amrywiaeth ddigonol o gemau awyr agored ar gael ond roedd gweithgareddau dan do yn fwy cyfyngedig, ac roedd angen adnewyddu rhai peiriannau yn y gampfa. Roedd y bechgyn a oedd yn dilyn yr Academi Ffitrwydd a llwybrau AG yn gwerthfawrogi'r cymwysterau y gwnaethant eu hennill.*

**3.46** Roedd gan bob bachgen fynediad at ymarfer corff ar amserlen o leiaf ddwy awr yr wythnos. Roedd staff yn asesu eu doniau a'u galluoedd yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn cynllunio gweithgareddau corfforol a rhaglenni ffitrwydd i ddiwallu anghenion unigol.

**3.47** Roedd y bechgyn yn elwa o ddefnyddio ardal chwaraeon pob tywydd i chwarae ystod ddigonol o gemau tîm awyr agored gan gynnwys pêl-droed, rygbi a phêl-foli. Fodd bynnag, roedd diffyg cyfleusterau addas yn cyfyngu ar ystod o weithgareddau dan do a oedd ar gael yn ystod gwersi ffurfiol.

**3.48** Roedd bechgyn yn gwneud defnydd da o'r gampfa i ddatblygu eu lefelau ffitrwydd cyffredinol drwy hyfforddiant cylchol a hyfforddiant pwysau. Roedd offer yn cynnwys detholiad da o bwysau rhydd, rhai peiriannau i ddatblygu ffitrwydd cardiofasgwlaidd ac offer aml-gampfa. Roedd ychydig o beiriannau mewn cyflwr gwael ac angen eu diweddaru.

**3.49** Roedd gweithgareddau corfforol yn cael eu hamserlennu i alluogi bechgyn i ddychwelyd i'w unedau i gael cawod ar ddiwedd y sesiynau.

**3.50** Roedd bechgyn yn dilyn yr Academi Ffitrwydd a llwybrau AG yn cael mynediad helaeth i gwricwlwm a gynlluniwyd yn dda a oedd yn eu galluogi i ennill cymwysterau ystyrlon, gan gynnwys ffitrwydd personol, arwain chwaraeon a sgiliau mentora. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cymwysterau hyn yn fawr. Roedd y llwybrau dysgu AG yn helpu bechgyn i wneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd ehangach y carchar drwy wirfoddoli a mentora.

## Argymhelliad

**3.51** **Dylai'r cyfleusterau AG gael eu gwella i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau yn ystod gwersi AG craidd.**

# Adran 4. Ailsefydlu

## Cyn rhyddhau ac ailsefydlu

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae cynllunio ar gyfer ryddhau neu drosglwyddo plentyn neu berson ifanc yn dechrau wrth iddynt gyrraedd y sefydliad. Mae ailsefydlu yn sail i waith y sefydliad cyfan, gyda chefnogaeth partneriaethau strategol yn y gymuned ac wedi'i lywio gan asesiad o risg ac angen pobl ifanc. Mae cynllunio parhaus yn sicrhau pontio llyfn i mewn i'r gymuned.**

**4.1** *Roedd rheolaeth strategol ailsefydlu'n rhesymol, ac roedd dadansoddiad anghenion newydd yn cael ei gynllunio, Nid oedd unrhyw ddefnydd o ryddhau ar drwydded dros dro am sawl mis. Cafodd trefniadau rhyddhau'n fuan eu defnyddio'n briodol. Nid oedd canlyniadau ailsefydlu'n cael eu monitor fel mater o drefn, ond roedd hyn yn cael sylw.*

**4.2** Roedd y strategaeth ailsefydlu yn gynhwysfawr ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, yn fwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2015. Roedd gweithredu'r strategaeth yn cael ei oruchwylio gan y pwyllgor ailsefydlu oedd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Roedd presenoldeb yn briodol ac roedd y cyfarfod diweddaraf wedi cynnwys partner cymunedol. Roedd cofnodion y cyfarfod yn nodi ffocws ar y cyfnod blaenorol yn hytrach na'i ddefnyddio fel fforwm strategol i lywio a gyrru darpariaeth. Roedd rheolwyr yn bwriadu datblygu cyfarfodydd i gymryd agwedd mwy strategol. Roedd dadansoddiad o anghenion yn cael ei baratoi i gymryd lle dadansoddiad anghenion ailsefydlu 2014.

**4.3** Roedd yr uned yn parhau i gael dalgylch eang a oedd yn cwmpasu Cymru a nifer o siroedd yn Lloegr. Weithiau roedd bechgyn o hyd yn oed ymhellach i ffwrdd yn dod yno os oeddent angen dechrau o'r newydd o sefydliad troseddwyr ifanc neu ganolfan hyfforddi ddiogel eu dalgylch.

**4.4** Derbyniodd y bechgyn gymorth da gan dîm bach o weithwyr achos a ymgymerodd â'r holl waith ailsefydlu craidd. Roedd rhai o'r tîm hefyd yn gwneud gwaith gyda camddefnyddio sylweddau a adlewyrchwyd yn y llwyth gwaith achos. Roedd bechgyn ar remand yn parhau i gael eu rheoli gan swyddog tîm troseddau ieuenctid (YOT) ar secondiad, tra bod bechgyn a ddedfrydwyd yn cael eu dyrannu ymhlith gweithwyr achos. Cymerodd gweithwyr achos y prif gyfrifoldeb am nodi anghenion risg ac ailsefydlu a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar atal aildroseddu.

**4.5** Yn ein harolwg, dywedodd 100% o fechgyn bod ganddynt weithiwr achos, ac yn ystod yr arolygiad, roedd nifer yn eu crybwyll fel pobl y byddent yn mynd atynt os oedd ganddynt broblem. Yn absenoldeb dros dro'r gweithiwr cefnogi teuluoedd, gweithwyr achos oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer teuluoedd a gofalwyr, gan roi pecyn gwybodaeth iddynt pan gyrhaeddodd y bachgen i ddechrau, a pharhau i roi gwybod iddynt am ddigwyddiadau arwyddocaol ac ymdrin â phryderon teuluoedd.

**4.6** Roedd y defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL) wedi gostwng ers yr arolygiad blaenorol ac nid oedd wedi cael ei ddefnyddio am chwe mis. Dywedwyd wrthym am gynlluniau i ymdrin â hyn ar ôl darparu arweiniad a hyfforddiant newydd yn gynnar yn 2016.

**4.7** Defnyddiwyd darpariaethau rhyddhau cynnar yn briodol ar gyfer bechgyn ar orchmynion cadw a hyfforddi. Roedd wyth o fechgyn wedi cael eu rhyddhau yn gynnar yn y chwe mis blaenorol. Nid oedd dim defnydd o ddarpariaeth rhyddhau yn hwyr, er bod bechgyn yn cael gwybod ei bod yn bosibl os oedd eu hymddygiad yn cyfiawnhau hynny. Roedd cyrffyw cadw yn y cartref a cheisiadau parôl, nad oedd rhyw lawer ohonynt, yn cael eu trin yn briodol.

**4.8** Mynychodd gweithwyr achos adolygiadau cymunedol cychwynnol ar gyfer bechgyn a ryddhawyd o’r Parc, os oedd y bachgen yn gymharol leol, neu roeddent yn cyfrannu dros y ffôn. Roedd hyn yn hwyluso asesiad ar unwaith o gynnydd y bachgen yn y gymuned ond nid oedd monitro systematig o ganlyniadau bechgyn ar ôl eu rhyddhau. Ar adeg yr arolygiad, roedd protocol gyda gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghymru yn cael ei ddatblygu a fyddai'n hwyluso rhannu gwybodaeth, er mwyn galluogi dilyniant a dadansoddiad o ganlyniadau ailsefydlu llwyddiannus ar gyfer bechgyn Cymraeg y Parc.

## Argymhellion

**4.9 Dylai'r defnydd o ROTL gael ei adfer i gefnogi camau cynllunio rhyddhau a chynnal a chadw cysylltiadau teuluol.**

**4.10 Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ddatblygu gweithdrefnau i alluogi monitro effeithiol o ganlyniadau ailsefydlu bechgyn, yn dilyn eu rhyddhau o'r YOI.**

# Rheoli cynllunio hyfforddiant a remand

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cynllun rheoli hyfforddiant neu remand sy'n seiliedig ar asesiad unigol o risg ac angen. Mae staff perthnasol yn cydweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr wrth lunio ac adolygu eu cynlluniau. Adolygir y cynlluniau yn rheolaidd ac maent yn cael eu gweithredu yn eu cyfanrwydd, ac ar ôl amser pobl ifanc yn y ddalfa, i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r gymuned.**

**4.11** *Roedd gan bob bachgen gynllun cynllunio hyfforddiant neu reoli remand unigol a oedd yn adlewyrchu ei anghenion a’i amgylchiadau . Nid oedd y cofnodion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd yn adlewyrchu ansawdd y cyfarfodydd a arsylwyd gennym. Roedd adolygiadau yn amserol ac yn gyffredinol gyda nifer dda yn mynychu ac eithrio swyddogion preswyl. Roedd trefniadau diogelu'r cyhoedd yn cael eu trefnu'n briodol. Cafodd plant sy'n derbyn gofal eu cefnogi gan weithiwr cymdeithasol ar secondiad, ond roedd anawsterau yn parhau i fod gyda chael awdurdodau lleol cartref i gyflawni eu cyfrifoldebau tuag at y bechgyn hyn. Roedd safon y gefnogaeth mewn perthynas â llety’n aml yn annigonol.*

**4.12** Roedd cyfarfodydd adolygu cynllunio yn gyffredinol yn amserol gyda phresenoldeb da gan YOI cymunedol ac, mewn rhai achosion, aelodau o'r teulu neu ofalwyr. Cafwyd presenoldeb da gan staff arall yr uned a oedd yn gweithio gyda'r bachgen, ac eithrio staff preswyl. Roedd patrymau shifft yn rhy aml yn eu hatal rhag mynychu, er dywedwyd wrthym am weithiwr allweddol a fynychodd adolygiad ar ei ddiwrnod i ffwrdd. Roedd gweithwyr allweddol yn darparu gwybodaeth am gynnydd bechgyn pe na baent yn gallu bod yn bresennol. Roedd yr adolygiadau yr arsylwyd gennym yn effeithiol. Cawsant eu cadeirio’n dda gan weithwyr achos a oedd yn sicrhau bod gan y bechgyn y cyfle i roi eu barn a, phan fo angen, ei hatgyfnerthu i'r gweithwyr proffesiynol yn yr adolygiad.

**4.13** Nid oedd y cynlluniau rheoli hyfforddiant a remand y buom yn edrych arnynt, yn adlewyrchu’n llawn ansawdd y drafodaeth yn y cyfarfodydd a arsylwyd gennym. Nid oedd sicrwydd ansawdd o ddogfennau cynllunio. Roedd bron i dri chwarter y bechgyn yn ein harolwg yn gwybod bod ganddynt gynllun yn erbyn cymharydd o 43%. Roedd cynlluniau yn cynnwys targedau clir, ond nid oedd yn amlwg o'r cofnodion eu bod bob amser yn cael eu holrhain mewn cyfarfodydd. Yn absenoldeb staff preswyl mewn llawer o adolygiadau, nid oedd yn glir sut roedd yr angen i weithio tuag at dargedau yn cael eu hatgyfnerthu, neu os oedd bechgyn yn cael help i gyflawni eu targedau. Dywedodd y rhan fwyaf o fechgyn a oedd â chynllun eu bod yn cymryd rhan yn ei ddatblygiad ac yn deall eu targedau.

**4.14** Roedd bechgyn ar remand gyda mynediad at yr un gwasanaethau â bechgyn wedi'u dedfrydu. Roedd eu gweithiwr achos ymroddedig i'w rheolaeth wedi helpu bechgyn i wneud cais am fechnïaeth os oeddent yn dymuno gwneud hynny ac fe wnaethant adolygu eu cynlluniau remand yn rheolaidd.

**4.15** Roedd gan rai bechgyn ddedfrydau hir penderfynedig. Roedd gweithwyr achos yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau, yn cynnwys paratoi dogfennau parôl neu asesu addasrwydd ar gyfer rhyddhau ar gyrffyw cadw yn y cartref (HDC) (gweler yr adran ar bobl ifanc â dedfryd amhenodol).

**4.16** Roedd rhai bechgyn yn trosglwyddo i'r ystâd oedolion yn 18 oed. Roedd y trefniadau ar gyfer bechgyn a symudodd i'r safle oedolion yn y Parc yn dda, gyda pharatoi a rhannu gwybodaeth briodol. Roedd gan yr uned lai o reolaeth dros drefniadau ar gyfer bechgyn a oedd yn symud i garchar oedolion gwahanol, ac roedd gwaith paratoi gyda'r bachgen yn cynnwys gwybodaeth fwy cyffredinol am y gwahaniaethau rhwng YOI a charchar i oedolion, a'r math o ymddygiad a fyddai'n ddisgwyliedig. Gwnaed ymgais i rannu gwybodaeth berthnasol am y bachgen gyda'r carchar newydd, ond dywedwyd wrthym nad oedd bob amser yn glir os oedd y wybodaeth yn cael ei gweithredu i baratoi ar gyfer dyfodiad y bachgen.

## Argymhellion

**4.17** **Dylai cyfarfodydd rheoli cynllunio hyfforddiant a remand gynnwys staff preswyl sy'n gweithio'n rheolaidd gyda'r bechgyn i sicrhau bod pob gweithgaredd perthnasol yn cael eu dal yn eu cynlluniau remand neu hyfforddiant, a bod atgyfnerthiad cyson i helpu bechgyn gyflawni eu targedau.**

**4.18** **Dylid cyflwyno sicrwydd ansawdd o ddogfennau cynllunio.**

## Amddiffyn y Cyhoedd

**4.19** Cafodd gweithdrefnau cychwynnol diogelu'r cyhoedd eu rheoli'n briodol. Cafodd newydd-ddyfodiaid eu sgrinio wrth gael eu derbyn gan ddefnyddio gwybodaeth a oedd ar gael a gafodd ei hadolygu'r bore canlynol gan dîm amlddisgyblaethol. Cysylltwyd â YOT cymunedol i gadarnhau manylion lefelau trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA), gorchmynion atal neu aflonyddu a pherygl posibl i blant. Rhoddwyd cyfyngiadau ar bost, ar y ffôn ac ar ymweliadau lle ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol. Cafodd cyfyngiadau eu hadolygu'n rheolaidd a'u symud pan oedd yn briodol gwneud hynny. Esboniodd gweithwyr achos gyfyngiadau monitro i'r bechgyn. Roedd tri bachgen yn destun monitro post a ffôn adeg yr arolygiad.

**4.20** Roedd y trefniadau MAPPA yn effeithiol ar y cyfan, a chadarnhaodd gweithwyr achos lefelau rheoli MAPPA gydag YOT cymunedol cyn eu rhyddhau. Gweithwyr achos oedd yn gyfrifol am gwblhau adroddiadau F MAPPA ar gyfer y nifer fach o fechgyn a ryddhawyd ar lefel dau neu dri, ac fe wnaethant fynychu adolygiadau cymunedol pan oedd ganddynt wybodaeth berthnasol i'w rhannu.

## Pobl ifanc dedfryd amhenodol

**4.21** Anaml y byddai'r Parc yn dal bechgyn gyda dedfrydau amhenodol. Nid oedd yn uned tymor hir ac nid oedd yn darparu rhaglenni addysg ac ymyriadau priodol. Roedd arbenigedd yn y tîm gwaith achos, ac yn ehangach yn yr uned rheoli troseddwyr carchar i oedolion, er mwyn sicrhau bod bechgyn yn cael rheolaeth achos priodol a bod y gwaith papur a phrosesau'n cael eu cwblhau pan fo angen. Os byddai bachgen gyda dedfryd amhenodol yn cael ei dderbyn, roedd staff yn hwyluso ei drosglwyddiad i uned tymor hir.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

**4.22** Ar gyfartaledd, roedd tua hanner y bechgyn ar yr uned yn blant oedd yn derbyn gofal. Cafodd eu statws ei nodi ar unwaith wrth gael eu derbyn, ac yn fuan ar ôl cyrraedd cawsant eu cyfweld gan weithiwr cymdeithasol y carchar. Cafodd y gweithiwr cymdeithasol cymunedol ei hysbysu o'u lleoliad, eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau a gofynnwyd iddo drefnu cefnogaeth gan yr awdurdod lleol.

**4.23** Roedd lefel y cymorth a ddarparwyd gan weithywr cymdeithasol yr awdurdod lleol yn amrywio'n fawr. Roedd diffyg cysondeb o ran darparu arian poced yn gyffredin: roedd rhai awdurdodau yn darparu cyfradd safonol, tra bod eraill yn defnyddio disgresiwn ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw arian y gallai'r bachgen ei dderbyn drwy'r carchar. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at ddim cymorth ariannol ychwanegol. Roedd adolygiadau gofal statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel arfer yn digwydd o fewn yr amserlen ofynnol, ond yn aml ddim ond ar ôl nodiadau atgoffa parhaus.

**4.24** Yr her fwyaf difrifol i staff yr uned gyda phlant sy'n derbyn gofal oedd cael llety addas mewn da bryd wedi iddynt gael eu rhyddhau. Dros y ddau fis diwethaf, er gwaethaf eiriolaeth ac ymdrechion gorau staff y carchar, nid oedd wyth o bobl ifanc yn gwybod ble roeddent yn mynd i fyw fis cyn eu rhyddhau. Fe achosodd hyn gryn ansicrwydd a phryder i'r bechgyn, a thanseilio llwyddiant y broses ailsefydlu.

**4.25** Yn ein harolwg, roedd dau ganfyddiad arbennig o amlwg mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Dim ond 20% a ddywedodd eu bod wedi cael eu trin yn dda yn y dderbynfa o gymharu â 64% o blant nad oedd yn derbyn gofal. Roedd yn bryder fod 64% o blant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod wedi cael eu herlid gan bobl ifanc eraill, o gymharu ag 19% o blant eraill. Nid oedd y rheswm dros y canfyddiadau negyddol hyn yn glir ac roedd angen ymchwiliad.

## Argymhellion

**4.26** **Dylai pob plentyn â statws derbyn gofal gael digon o gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd 4.22)

**4.27** **Dylid archwilio plant sy'n derbyn gofal, er mwyn nodi unrhyw anawsterau sylfaenol yn y ffordd y maent yn profi'r ddalfa.**

# Cynllunio ailintegreiddio

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Eir i'r afael ag anghenion ailsefydlu plant a phobl ifanc cyn eu rhyddhau. Mae ymateb effeithiol amlasiantaethol yn cael ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion penodol pob person ifanc unigol, er mwyn gwneud y gorau o'r tebygolrwydd o ailintegreiddio'n llwyddiannus yn y gymuned.**

**4.28** *Roedd darpariaeth a chanlyniadau ar draws y llwybrau ailsefydlu yn amrywio. Roedd llety a chyllid, budd-daliadau a dyled angen sylw, ond roedd darpariaeth dda ar gyfer gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau ac roedd gwaith i alluogi bechgyn i gynnal cysylltiadau teuluol yn arbennig o gryf. Roedd bechgyn yn cael rhywfaint o fynediad i rai ymyriadau i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol, ond roedd diffyg ymyriadau i fechgyn ag ymddygiad rhywiol niweidiol.*

**4.29** Roedd trefniadau ymarferol i baratoi ar gyfer rhyddhau bechgyn yn parhau yn gadarn. Cafodd cynlluniau ar gyfer y diwrnod rhyddhau eu trafod mewn cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant a roddodd gyfle i fechgyn gael eglurhad o amodau eu rhyddhau. Cawsant eu rhyddhau ar wahân drwy'r dderbynfa oedolion ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd staff yn sicrhau nad oeddent yn teithio ar eu pennau eu hunain. Yn yr

achosion prin lle nad oedd neb i gasglu bachgen o giât y carchar, cymerodd staff nhw i'r orsaf leol a gwneud yn siŵr eu bod yn mynd ar y trên cywir.

## Llety

**4.30** Fe wnaeth llawer o fechgyn ddychwelyd i fyw gyda'u teulu ar ôl eu rhyddhau, ond i eraill roedd ansicrwydd yn aml ynghylch ble byddent yn byw tan yn agos at eu dyddiad rhyddhau. Yn rhy aml, roedd y rhain yn blant gyda statws derbyn gofal a oedd weithiau'n cael gwybod lle byddent yn byw dim ond diwrnod neu ddau cyn eu rhyddhau. Roedd gweithwyr achos yn fedrus wrth godi anghenion llety yn gynnar, a chodi mater diffyg llety addas gydag uwch reolwyr. Er gwaethaf hyn, mewn gormod o achosion roedd y carchar yn gorfod troi at eiriolwyr Barnardos a Chynghrair Howard am gymorth.

**4.31** Er gwaethaf ymdrechion gan yr uned ac asiantaethau eraill, roedd un bachgen 17 oed wedi cael ei ryddhau heb unrhyw gyfeiriad ar ôl gwrthod lleoliad maeth. Roedd wedi cael ei gasglu gan ei weithiwr YOT a'i roi mewn hostel gwely a brecwast lle bu am bum niwrnod, hyd nes roedd llety mwy addas ar gael. Roedd diffyg cyfeiriad ar adeg eu rhyddhau yn atal unrhyw drefniadau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (ETE) rhag cael eu gwneud ar ei gyfer ac yn gyffredinol, roedd yn anodd iawn trefnu ETE ar gyfer bechgyn nad oedd wedi cael cyfeiriadau mewn da bryd. Dywedodd gweithwyr achos bod wyth o fechgyn wedi cael eu rhyddhau i lety annerbyniol yn y chwe mis blaenorol: saith i wely a brecwast ac un i westy.

## Argymhelliad

**4.32** **Dylai gwaith gydag adrannau eraill y llywodraeth gael ei gynnal er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n gadael y ddalfa yn cael llety priodol mewn da bryd ar gyfer eu rhyddhau.**

## Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

**4.33** Roedd cynlluniau cadarn ar waith i sicrhau trosglwyddiad prydlon o wybodaeth addysg ar gyfer bechgyn a oedd yn symud i garchardai oedolion. Rhoddodd athrawon gyfrif manwl i weithwyr achos a phartneriaid perthnasol o ddysgu'r bachgen hyd yma. Fe wnaeth athrawon nodi llwybrau addysg tebygol ar gyfer y bechgyn hyn a rhoi llwybrau dilyniant hawdd i gymwysterau uwch.

**4.34** Cafodd bechgyn a oedd yn trosglwyddo i ddarparwyr eraill gyngor da ar reoli cyfweliadau. Gwnaeth yr athrawon ddefnydd da o ROTL i fynd gyda bechgyn i gyfweliadau ar gyfer cyrsiau dysgu yn y gwaith neu addysg bellach.

## Gofal iechyd

**4.35** Cafodd yr holl fechgyn eu gweld gan nyrs cyn eu rhyddhau ac roedd cysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau iechyd lleol drwy'r YOT i sicrhau parhad gofal. Lle bo'n briodol, rhoddwyd hyd at bum niwrnod o feddyginiaeth ar bresgripsiwn.

## Cyffuriau ac alcohol

**4.36** Fe wnaeth gweithwyr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc (YPSMS) fynychu cyfarfod cynllunio gorchymyn cadw a hyfforddi terfynol, a gwnaed cysylltiadau ag asiantaethau cyffuriau ac alcohol cymunedol drwy'r YOT lleol neu asiantaethau cymunedol eraill.

**4.37** Roedd gweithwyr YPSMS weithiau'n mynychu cyfarfodydd cymunedol ôl-ryddhau ar gyfer bechgyn a ryddhawyd o fewn Cymru.

## Cyllid, budd-dal a dyled

**4.38** Roedd angen datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y llwybr hwn. Nid oedd bechgyn yn gallu agor cyfrifon banc tra roeddent yn y Parc ac nid oedd unrhyw fewnbwn mwyach gan y banc, a oedd wedi ymweld â bechgyn yn flaenorol i roi cyngor. Roedd rheoli arian wedi'i gynnwys mewn rhai cyrsiau gan yr adran addysg ac roedd gweithwyr achos yn cynnig cymorth ymarferol, gan gynnwys cael rhifau yswiriant cenedlaethol ar gyfer bechgyn oedd angen un.

## Argymhellion

**4.39** **Dylai bechgyn fod yn gallu agor cyfrif banc tra maent yn y Parc.**

**4.40** **Dylai bechgyn gael mynediad at wybodaeth ac arweiniad er mwyn eu galluogi i ddatblygu'r ymwybyddiaeth a sgiliau ariannol sydd eu hangen arnynt pan gânt eu rhyddhau.**

## Plant, teuluoedd a chyswllt â'r byd y tu allan

**4.41** Roedd yr ardal ymweliadau wedi symud ers yr arolygiad blaenorol. Roedd ymweliadau bellach yn digwydd yn adran uwch yr ardal prif ymweliadau, a oedd yn gwbl ar wahân i'r carcharorion sy'n oedolion. Nid oedd unrhyw olau naturiol yn y cyfleuster newydd, oedd â nenfwd isel ac ychydig o le. Roedd y waliau wedi'u haddurno â murluniau trawiadol ac roedd ardal fach i blant. Roedd y cyfleusterau'n ddigonol a'r amgylchedd yn weddol gyfforddus. Dywedwyd wrthym bod y trefniadau presennol yn rhai dros dro a bod cynlluniau yn eu lle i adleoli ymweliadau i leoliad mwy eang, lle byddai mwy o bwyslais ar waith ar y cyd gydag aelodau o'r teulu.

**4.42** Roedd y sesiwn ymweliadau yr arsylwyd gennym yn hamddenol iawn gyda staff yn cynnal presenoldeb anymwthiol. Roedd ymwelwyr yn gallu prynu bwyd poeth o ffreutur y prif ymweliadau i lawr y grisiau a mynd â'r bwyd i ardal ymweliadau'r uned.

**4.43** Roedd lle i hyd at wyth o ymweliadau a gynhaliwyd ar nosweithiau yn ystod yr wythnos ac yn ystod y dydd ar y penwythnos. Gellid bodloni'r rhan fwyaf o geisiadau am ymweliadau ac os oedd ymwelwyr yn teithio o bell, gallai ymweliadau dwbl gael eu trefnu ar benwythnosau. Roedd y bws am ddim i'r orsaf leol, ac oddi yno, yn parhau i gael ei redeg gan y carchar ar amseroedd ymweld.

**4.44** Roedd bechgyn nawr yn gallu archebu eu hymweliadau gan ddefnyddio'r peiriant awtomataidd. Rhoddodd hyn fwy o reolaeth iddynt ac roedd yn boblogaidd. Roedd hefyd yn osgoi'r angen i ymwelwyr ddarparu ID ffotograffig bob tro roeddent yn ymweld â nhw.

**4.45** Roedd gan bob bachgen ffôn yn eu celloedd a oedd yn eu galluogi i wneud galwadau allan. Roedd y cyfraddau yn ddrud, ond roedd yn gwella eu gallu'n fawr i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd.

**4.46** Roedd y gweithiwr cefnogi teuluoedd yn parhau i chwarae rhan weithredol iawn o ran cynghori teuluoedd bechgyn a oedd newydd eu derbyn am gyfundrefn yr uned. Fe wnaeth hi hefyd gadw mewn cysylltiad dros y ffôn gydag oedolyn cyfrifol y bechgyn, gan ddweud wrthynt ar unwaith am ddigwyddiadau arwyddocaol am eu plentyn.

**4.47** Ers yr arolygiad diwethaf, roedd Skype wedi'i gyflwyno er mwyn helpu bechgyn i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu. Er bod y nifer a fanteisiodd ar hyn wedi bod yn isel hyd yn hyn, roedd hon yn fenter bwysig iawn gyda'r potensial i drawsnewid y ffordd roedd bechgyn yn cynnal cyswllt â'r byd y tu allan.

**4.48** Nid oedd rhai bechgyn yn cael ymweliadau. Roedd y staff yn ymwybodol o bwy oedd y bechgyn hyn ac yn rhoi anogaeth a chefnogaeth i'w helpu i ddelio â hyn.

**4.49** Nid oedd grwpiau rhianta yn cael eu rhedeg, y gwnaeth staff gydnabod fel gwendid. Dywedasant wrthym fod rhaglen addas wedi'i chynllunio fel rhan o ailfodelu'r swyddogaeth ymweliadau.

## Agweddau, meddwl ac ymddygiad

**4.50** Roedd ystod o ymyriadau nad oeddent yn achrededig yn cael eu darparu, gan gynnwys datrys gwrthdaro, datrys problemau, rheoli tymer a throseddau cyllyll. Cyflwynodd dau swyddog dalfa'r carchar hyn mewn ymateb i angen a nodwyd, yn bennaf fel ymyriadau un-i-un. Nid oedd unrhyw werthusiad ffurfiol o effeithiolrwydd yr ymyriadau, ond rhywfaint o dystiolaeth o newid yn ymddygiad y bechgyn, er enghraifft, cynnydd o fewn y cynllun gwobrau a chosbau neu lai o gyfranogiad mewn ymddygiad gwael ar yr adain. Mynychodd y ddau hwylusydd adolygiadau cynllunio cychwynnol i drafod sut y gallent weithio gyda bachgen ac adrodd ar gynnydd mewn cyfarfodydd dilynol. Cafodd bechgyn eu blaenoriaethu ar gyfer ymyriadau yn ôl eu dyddiad rhyddhau.

**4.51** Roedd adolygiad o amrywiaeth yr ymyriadau wedi'i gynllunio. Nid oedd unrhyw ymyriadau ar y safle i fechgyn â throseddau â chysylltiad rhywiol a dim byd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol tra roeddent ar yr uned. Nid oedd yr uned yn dal llawer o fechgyn o'r fath, ond roedd hyn yn wendid.

## Argymhellion

**4.52 Dylid gwerthuso ymyriadau.**

**4.53 Dylai ymyriadau gael eu rhoi yn eu lle i fechgyn i fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol.**

# Adran 5. Argymhellion a phwyntiau cynnal a chadw

Mae'r canlynol yn rhestr o argymhellion, pwyntiau cynnal a chadw ac enghreifftiau o arfer da a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhifau cyfeirnod ar ddiwedd pob un yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn y prif adroddiad.

## Argymhelliad — Rôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder

**5.1** Dylai gwaith gydag adrannau eraill y llywodraeth gael ei gynnal er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n gadael y ddalfa yn cael llety priodol mewn da bryd ar gyfer eu rhyddhau.

## Argymhellion — I'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

**5.2** Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ddatblygu gweithdrefnau i alluogi monitro effeithiol o ganlyniadau ailsefydlu bechgyn, yn dilyn eu rhyddhau o'r YOI.

**5.3** Dylai pob plentyn â statws derbyn gofal gael digon o gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol.

## Argymhellion — I'r llywodraethwr

**Llysoedd, hebrwng a throsglwyddo**

**5.4** Dylai plant gael eu cludo i'r ddalfa cyn gynted ag y bydd eu hachos wedi gorffen. Dylent gael eu cludo ar wahân i oedolion a chyrraedd y Parc cyn 7pm.

**Dyddiau cynnar yn y ddalfa**

**5.5** Dylai'r llawlyfr sefydlu fod ar gael yn y prif ieithoedd a siaredir gan blant sy'n wladolion tramor.

**Gofal ac amddiffyn plant a phobl ifanc**

**5.6** Dylai pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant gael hyfforddiant gloywi ym maes amddiffyn plant.

**5.7** Dylid cymryd camau i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’r polisi codi pryderon, ac yn gwybod amdano.

**5.8** Dylai plant deimlo'n hyderus i roi gwybod am fwlio heb ofni bygythiadau pellach.

**5.9** Dylai'r rhesymau dros y cynnydd mewn plant yn adrodd erledigaeth gan staff gael eu hymchwilio, a dylid gweithredu ar y canfyddiadau.

**5.10** Dylai plant mewn argyfwng sy'n gofyn am arsylwi cyson gael eu monitro wyneb yn wyneb gan y staff ac nid gan TCC.

**Rheoli ymddygiad**

**5.11** Dylid gwneud dadansoddiad manwl o’r rheoli ymddygiad yn ystod hydref 2015, gan ystyried safbwyntiau staff a phlant, fel y gellir dysgu gwersi a rhoi sylw i ddiffygion.

**5.12** Ni ddylid noeth chwilio dan ataliaeth ac ni ddylid defnyddio technegau ysgogi poen ar blant.

**5.13** Dylai'r holl ddigwyddiadau lle defnyddir grym gael eu cofnodi, gan gynnwys sain, ac, unwaith y bydd mesurau diogelu a gweithdrefnau priodol wedi cael eu rhoi ar waith, dylai camerâu i’w gwisgo ar y corff gael eu defnyddio i gyflawni hyn.

**5.14** Ni ddylai staff o'r carchar oedolion gael eu defnyddio fel mater o arfer i ymateb i bob digwyddiad ar uned y plant.

**Camddefnyddio Sylweddau**

**5.15** Dylai lleoliad bechgyn gydag anghenion diddyfnu alcohol a chyffuriau sicrhau eu bod yn cael eu monitro a’u cynorthwyo’n ddiogel.

**Unedau preswyl**

**5.16** Dylai celloedd gael awyru effeithiol.

**5.17** Dylai toiledau gael eu sgrinio yn llawn.

**5.18** Dylai plant gael mynediad at gwpwrdd y gellir ei gloi.

**Y berthynas rhwng staff a phlant a phobl ifanc**

**5.19** Dylai rheolwyr ymchwilio a rhoi sylw i ganfyddiadau negyddol plant o’r staff.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

**5.20** Dylai cyfarfod rheoli cydraddoldeb ddigwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod polisi, cynllunio ac ymgynghori’n effeithiol, bod canfyddiadau carcharorion a'u hanghenion yn cael sylw, a data monitro cynhwysfawr yn cael eu hystyried.

**5.21** Dylid gwella ymgysylltu gan yr uned blant gyda grwpiau amrywiaeth cymunedol, i'r lefel a gyflawnwyd gan y carchar i oedolion.

**5.22** Dylai'r holl staff gael eu hyfforddi i adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl a'r mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol.

**Gwasanaeth Iechyd**

**5.23** Dylai pob ardal glinigol fod yn ddiogel a chydymffurfio'n llwyr â chanllawiau rheoli heintiau.

**5.24** Dylai fod digon o gapasiti nyrsio i sicrhau y gall yr holl weithgareddau clinigol megis asesiadau CHAT gael eu cwblhau mewn modd amserol.

**5.25** Dylai pobl ifanc gael eu meddyginiaethau mewn modd amserol i sicrhau effeithiolrwydd clinigol.

**5.26** Dylai plant gael mynediad amserol i therapi lleferydd ac iaith fel y nodwyd yn glinigol.

**5.27** Dylid cytuno ar bolisïau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl.

**Amser allan o'r gell**

**5.28** Dylai plant gael gwell mynediad at gyfleusterau awyr agored.

**Addysg, dysgu a sgiliau**

**5.29** Dylai fod goruchwyliaeth effeithiol a sicrwydd ansawdd o'r ddarpariaeth addysg.

**5.30** Dylid adolygu cynllunio cwricwlaidd y llwybrau dysgu, i sicrhau bod pob llwybr yn cynnig nifer gyfartal o wersi i blant ac er mwyn atal dyblygu dysgu.

**5.31** Dylai pob bachgen gael targedau llythrennedd a rhifedd unigol sy'n adlewyrchu'r meysydd i'w datblygu yn eu hasesiad diagnostig.

**Addysg gorfforol a byw yn iach**

**5.32** Dylai'r cyfleusterau AG gael eu gwella i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau yn ystod gwersi AG craidd.

